

Y GYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU
**Adroddiad ar yr Ymatebion
i'r Ymgynghoriad**

Ymgynghoriad ar y cynnig i ateb y galw uwch am addysg gynradd cyfrwng Saesneg yn y Bont-faen o fis Medi 2022 trwy:

- **newid ystod oedran Ysgol Gyfun y Bont-faen o 11 - 19 i 3 - 19;**
- **cynyddu capasiti Ysgol Gyfun y Bont-faen o 1,586 o leoedd i 1,796 o leoedd i wneud lle i 210 o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg gyda 48 o leoedd meithrin rhan-amser ychwanegol; a**
- **chodi adeilad ysgol newydd ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen i wneud lle i'r cyfnodau cynradd a meithrin.**

Cynnwys	Tudalen
Cefndir	3
Amlinelliad o'r broses ymgynghori	3
Ymatebion i'r ymgynghoriad	5
Casgliad	9
Atodiad A – Crynodeb o faterion allweddol a godwyd gan ymgynghoreion statudol a'r ymateb i'r materion hynny	12
Atodiad B – Crynodeb o sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig	35
Atodiad C – Cwestiynau cyffredin	38
Atodiad D – Ymgynghori a fu gyda phobl ifanc	40
Atodiad E – Ymateb gan Estyn	43
Atodiad F – Cofnodion y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant	46
Atodiad G – Ymateb gan Gyngor Tref y Bont-faen (Bwrdeistref Hynafol) gyda Llanfleiddan a oedd yn ategu'r ymateb a ddatblygwyd gan gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Y Bont-faen	50

Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, a gynhaliwyd rhwng 16 Mawrth 2020 a 23 Tachwedd 2020, mewn ymateb i gynnig y Cyngor i ateb y galw uwch am addysg gynradd cyfrwng Saesneg yn y Bont-faen o fis Medi 2022 trwy;

- Newid ystod oedran Ysgol Gyfun y Bont-faen o 11 - 19 i 3 - 19;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gyfun y Bont-faen o 1,586 o leoedd i 1,796 o leoedd i wneud lle i 210 o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg gyda 48 o leoedd meithrin rhan-amser ychwanegol; a
- Chodi adeilad ysgol newydd ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen i wneud lle i'r cyfnodau cynradd a meithrin.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r broses ymgynghori, yn rhoi trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn cynnig manylion pellach am y materion allweddol a'r sylwadau ffafriol a godwyd gan randdeiliaid.

Amlinelliad o'r broses ymgynghori

Roedd y prosesau ymgynghori'n dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, gan gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Roedd y prosesau ymgynghori'n rhoi'r cyfle i ymgynghoreion penodedig ddysgu am y cynnig ac i'r Cyngor glywed barn pawb sydd â buddiant er mwyn iddynt allu cael eu cymryd i ystyriaeth cyn bod unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud.

Cyhoeddi'r ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriadau ffurfiol trwy ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb a ddosbarthwyd yn electronig i ymgynghoreion penodedig ac a gyhoeddwyd ar wefan Cyngor Bro Morgannwg ar 16 Mawrth 2020. Cafodd ymgynghoreion ddolen mewn neges e-bost hefyd a oedd yn mynd â hwy at wefan Cyngor Bro Morgannwg. Roedd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar gais hefyd.

Mae cyhoeddi dogfen ymgynghori'n ganolog i'r broses ymgynghori ar gyfer ad-drefnu ysgolion ac fe'i rhagnodir gan Lywodraeth Cymru yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Roedd y ddogfen ymgynghori'n nodi'r cynnig a oedd dan ystyriaeth, y rhesymeg dros y cynnig a manylion yr ymarfer ymgynghori. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys ffurflen ymateb unigol. Cafodd ymgynghoreion eu hysbysu ynghylch argaeledd fersiwn ar-lein i'w chwblhau.

Rhoddodd Ysgol Gyfun y Bont-faen wybod i'r Cyngor y byddai'n atal yr holl addysg ffurfiol o 23 Mawrth 2020 oherwydd y goblygiadau a oedd yn gysylltiedig â'r achos o feirws COVID-19 a oedd yn mynd rhagddo ar y pryd. Er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn unol â'r gofynion yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018, rhoddwyd gwybod i'r ymgynghoreion bod y dyddiad terfyn arfaethedig wedi cael ei ddileu ac y byddai dyddiad terfyn hwyrach yn cael ei bennu. Roedd ymgynghoreion yn dal i allu gweld dogfennaeth yr ymgynghoriad a

chyflwyno adborth gan ddefnyddio ffurflen adborth neu drwy gwblhau a dychwelyd ffurflen ymateb.

Ar 7 Medi 2020, rhoddodd y Cyngor wybod i'r ymgynghoreion bod dyddiad terfyn wedi cael ei bennu ar gyfer yr ymgynghoriad. Cafodd yr ymgynghoreion o leiaf 42 diwrnod o rybudd ynghylch y dyddiad terfyn a bennwyd, sef 18 Hydref 2020. Cafodd y ddogfen ymgynghori a'r tudalennau gwe eu diweddarau i adlewyrchu'r dyddiad terfyn diwygiedig a chafodd y cwestiynau cyffredin eu diweddarau.

Fe'i dygwyd i sylw'r Cyngor na chafodd rhai o rieni/gofalwyr Ysgol Gyfun y Bont-faen y neges e-bost a anfonwyd gan Ysgol Gyfun y Bont-faen ar 9 Medi i hysbysu bod y dyddiad terfyn newydd wedi cael ei bennu. Felly, i sicrhau bod gan yr holl ymgynghoreion ddigon o amser i ystyried y cynnig yn llawn a chyflwyno'u hadborth, rhoddodd y Cyngor estyniad pellach ar y cyfnod ymgynghori tan 23 Tachwedd 2020. Mae hyn yn golygu bod ymgynghoreion wedi cael mwy na 250 o ddiwrnodau i gyflwyno'u hadborth i'r ymgynghoriad.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad

Cafodd gweithgarwch ymgysylltu ar gyfer yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig ei gyflawni gydag ymgynghoreion penodedig sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fe ymgynghorwyd â'r grwpiau canlynol:

Staff (sy'n addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Gyfun y Bont-faen	Corff Llywodraethu Ysgol Gyfun y Bont-faen
Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gyfun y Bont-faen	Cyngor Tref y Bont-faen (Bwrdeistref Hynafol) gyda Llanfleiddan
Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg	Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar (PDBC) Bro Morgannwg
Aelodau Cynulliad (ACau) / Aelodau Seneddol (ASau) / Aelodau Rhanbarthol y Cynulliad	Cynghorwyr Lleol
Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)	Comisiynydd y Gymraeg
Estyn	Ysgolion Cynradd ac Uwchradd cyfagos ym Mro Morgannwg
Gweinidogion Llywodraeth Cymru	Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru
Comisiynydd Lleol yr Heddlu a Throseddu	Undebau Llafur
Adran Drafnidiaeth y Cyngor	Cyfarwyddwyr Addysg – Pob Awdurdod Cyfagos
Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol	

Gwahoddwyd ymgynghoreion i gwblhau ffurflen ar gyfer ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad y gellid ei chwblhau ar ffurf copi caled neu ar-lein trwy wefan y Cyngor yn: www.valeofglamorgan.gov.uk/cowbridgeprimaryprovision

Yn sgîl goblygiadau parhaus y Coronafeirws cafodd sesiynau galw heibio ar gyfer rhieni a'r gymuned eu canslo er mwyn cyfyngu ar y rhyngweithio rhwng staff, rhieni a'r gymuned ehangach. Fodd bynnag, cafodd sianeli cyfathrebu agored eu cynnal trwy gydol yr ymgynghoriad dros y ffôn a thrwy'r e-bost. Cafodd y Cwestiynau

Cyffredin eu diweddarau hefyd i adlewyrchu ymholiadau a godwyd trwy gydol y cyfnod ymgynghori (Atodiad C).

Ymgynghori â phlant a phobl ifanc

Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori gyda'r cynrychiolwyr o blith disgyblion Ysgol Gyfun y Bont-faen i gynnwys y disgyblion yn y broses ymgynghori. Ceir adroddiad ar ganlyniad y sesiynau hyn yn Atodiad D.

Cwestiynau Ymgynghori

Gofynnwyd i ymgynghoreion am eu barn ynglŷn â chwestiwn allweddol:

Ymgynghoriad ar y cynnig i ateb y galw uwch am addysg gynradd cyfrwng Saesneg yn y Bont-faen o fis Medi 2022 trwy;

- Newid ystod oedran Ysgol Gyfun y Bont-faen o 11 - 19 i 3 - 19;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gyfun y Bont-faen o 1,586 o leoedd i 1,796 o leoedd i wneud lle i 210 o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg gyda 48 o leoedd meithrin rhan-amser ychwanegol; a
- Chodi adeilad ysgol newydd ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen i wneud lle i'r cyfnodau cynradd a meithrin.

1. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig a nodir uchod?

Cynigiwyd y cyfle i'r ymgynghoreion wneud sylwadau pellach:

2. Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yn lle'r cynigion, nodwch y rhain isod.

3. Unrhyw sylwadau eraill?

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd yn ysgrifenedig rhwng 16 Mawrth 2020 a 23 Tachwedd 2020 eu nodi isod.


Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd 251 o ymatebion unigol erbyn y dyddiad cau. O'r cyfanswm o 251 o ymatebion unigol a gafwyd, roedd 83 o blaid y cynnig, roedd 163 yn ei wrthwynebu, ac nid oedd 5 yn mynegi barn y naill ffordd na'r llall. Caiff y dadansoddiad o'r ymatebion ei nodi'n fanwl yn y tablau a'r siartiau isod.

Nodwyd na wnaeth yr holl ymgynghoreion ddarparu ymateb i bob un o'r cwestiynau a bod rhai ffurflenni heb eu cwblhau'n llawn. Yn yr achosion hyn rydym wedi derbyn yr ymatebion i'r cwestiynau y maent wedi dewis eu hateb.

Fel y dengys tabl 1 a siart 1 isod, roedd 83 o'r ymatebwyr (33%) o blaid y cynnig, roedd 163 o'r ymatebwyr (65%) yn erbyn y cynnig, ac ni wnaeth 5 (2%) fynegi barn y naill ffordd na'r llall.

Tabl 1 – Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad						
Cyfanswm yr ymatebion (unigol):	Cyfanswm yn gefnogol		Cyfanswm ddim yn gefnogol		Cyfanswm â dim barn	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
251	83	33%	163	65%	5	2%




Siart 1 – Rhaniad yr ymatebion a oedd yn gefnogol neu ddim yn gefnogol i'r cynnig, a'r ymatebion hynny â dim barn y naill ffordd na'r llall

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddynodi eu rôl mewn perthynas â'r cynnig. Roedd ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn.

Fel y dengys tabl 2 a siart 2 isod, roedd gan grwpiau o ymatebwyr farn gymysg ynglŷn â'r cynnig. Dynododd y grŵp mwyaf o ymatebwyr mai rhieni neu warcheidwaid oeddent (147 o ymatebwyr – 23.13% o blaid, 74.83% yn erbyn), gyda phreswylwyr lleol (58 o ymatebwyr – 18.97% o blaid, 81.03% yn erbyn) ac yna aelodau o staff (50 o ymatebwyr – 84% o blaid, 16% yn erbyn) yn dilyn wedyn. Roedd ymatebwyr "eraill" (4 ymatebydd – 25% o blaid, 50% yn erbyn) yn cynnwys cyn-athrawon a'r comisiynydd heddlu a throseddu.

Tabl 2 – Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl rôl				
Ymateb yn ôl rôl:	Cefnogol	Ddim yn gefnogol	Dim barn	Cyfanswm
	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer
Rhiant neu warcheidwad	34	110	3	147

Taid neu Nain	2	17	1	20
Disgybl	0	1	0	1
Aelod o staff	42	8	0	50
Llywodraethwr	7	11	0	18
Preswylydd Lleol	11	47	0	58
Arall	1	2	1	4




Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd ddynodi â pha ysgol y maent yn gysylltiedig (os o gwbl) mewn perthynas â'r cynnig, ac roedd ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn.

Fel y dengys tabl 3 a siart 3 isod, roedd gan ymatebwyr â chysylltiad ag ysgol(ion) farn gymysg ynglŷn â'r cynnig. Y grŵp mwyaf o ymatebwyr oedd y rhai â chysylltiad ag Ysgol Gynradd y Bont-faen (120 o ymatebwyr – 12.5% o blaid, 86.67% yn erbyn), gydag Ysgol Gyfun y Bont-faen (112 o ymatebwyr – 54% o blaid, 44.64 yn erbyn), ac yna Ysgol Iolo Morganwg (4 ymatebydd – 75% o blaid, 25% yn erbyn) yn dilyn. Cafwyd ychydig o ymatebion o'r rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd eraill cyfagos (cyfanswm o 17 o ymatebwyr); gan gynnwys Saint-y-brid (4 ymatebydd – 50% o blaid, 50% yn erbyn), Llanfair (2 ymatebydd – 100% o blaid), Pendeulwyn (2 ymatebydd – 50% o blaid, 50% yn erbyn) a Llansanwyr (3 ymatebydd – 100% yn erbyn). Mae'r rhain wedi cael eu grwpio a'u labelu fel "Ysgolion cynradd eraill" yn y tablau a'r siartiau isod, a threfnwyd fod y dadansoddiad llawn o'r ysgolion ar gael i aelodau Cabinet.

Tabl 3 - Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl ysgol				
Ymateb yn ôl ysgol:	Yn gefnogol	Ddim yn gefnogol	Dim barn	Cyfanswm
	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer

Ysgol Gyfun y Bont-faen	61	50	1	112
Ysgol Gynradd y Bont-faen	15	104	1	120
Ysgol Iolo Morganwg	3	1	0	4
Ysgolion Cynradd Eraill	6	11	0	17



Siart 3 – Rhaniad yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl ysgol

Ymatebion mewn manylder

Atodiad	Disgrifiad
Atodiad A	Mae crynodeb o'r materion allweddol a godwyd gan ymgynghoreion statudol a'r ymateb i'r materion hynny wedi'u cynnwys yn Atodiad A.
Atodiad B	Mae crynodeb o'r sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig wedi'i gynnwys yn Atodiad B.
Atodiad C	Mae'r cwestiynau cyffredin wedi cael eu diweddarau i gynnwys y cwestiynau allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad (Atodiad C).
Atodiad D	Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori gyda'r cynrychiolwyr o blith disgyblion Ysgol Gyfun y Bont-faen i gynnwys y disgyblion yn y broses ymgynghori. Ceir adroddiad ar ganlyniad y sesiynau hyn yn Atodiad D.
Atodiad E	Cyflwynwyd ymateb ffurfiol gan Estyn ac mae i'w gael yn Atodiad E.
Atodiad F	Cyfeiriwyd y ddogfen ymgynghori at y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 15 Hydref 2020. Ceir cofnodion y cyfarfod hwn yn Atodiad F.

Atodiad G	Mae'r ymateb gan Gyngor Tref y Bont-faen (Bwrdeistref Hynafol) gyda Llanfleiddan a oedd yn ategu'r ymateb a ddatblygwyd gan gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Y Bont-faen i'w gael yn Atodiad G.
------------------	---

Casgliad

Yn dilyn ystyried yr ymatebion a gafwyd trwy gydol y cyfnod ymgynghori, mae'r Cyngor wedi ailystyried y cynnig i bennu'r effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg, y gymuned leol a threfniadau teithio.

Ansawdd a safonau mewn addysg

Fel a nodir yn yr ymateb a gafwyd gan Estyn, 'mae'n debygol y bydd y cynnig o leiaf yn cynnal safonau presennol addysg a'r ddarpariaeth yn yr ardal'. Yn yr arolygiad diweddaraf gan Estyn ym mis Ebrill 2019, barnwyd fod Ysgol Gyfun y Bont-faen yn 'rhagorol' ym mhob un o'r pum maes arolygu. Fe grynodd Estyn fod 'arweinyddiaeth gref, sicr, cynllunio'r cwricwlwm yn ofalus ac addysgu sy'n gyson yn effeithiol i addysgu ac ysbrydoli pobl ifanc wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau lefelau eithriadol o uchel o gyrhaeddiad a lles disgyblion yn Ysgol Gyfun y Bont-faen.'

Mae uwch arweinwyr Ysgol Gyfun y Bont-faen wedi bod yn llwyr gefnogol i'r cynnig hwn ac mae'r Cyngor yn credu y byddai'r cynnig hwn yn sicrhau bod Ysgol Gyfun y Bont-faen yn gallu parhau i ddarparu ansawdd a safonau rhagorol mewn addysg gan ddarparu ar gyfer poblogaeth ddisgyblion ac ystod oedran fwy.

Roedd yr ymateb gan ddisgyblion hefyd yn nodi cyfleoedd niferus i ddisgyblion iau a hŷn gael budd o'i gilydd. Mae hyn yn cynnwys;

- 'Gallai'r disgyblion cynradd gael mwy o ddiddordebau, gan ehangu eu gorwelion trwy fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol uwchradd';
- 'Yr Eco Bwyllgor yn rhoi gwasanaethau cynradd i ddysgu am faterion ecolegol; bydd hyn, yn ei dro, hefyd yn rhoi profiad i'r disgyblion hŷn o wneud testunau o'r fath yn addas i gynulleidfa iau, gan ddysgu i addasu iaith a geirfa.'; a
- 'Gallai disgyblion uwchradd eu gweld eu hunain fel modelau rôl a hynny'n arwain at ymddygiad gwell ganddynt o bosibl.'

Yn seiliedig ar brofiadau blaenorol, mae'r Cyngor o'r farn bod nifer o fanteision yn gysylltiedig â'r model ysgol pob oed, gan gynnwys:

- Gweledigaeth gyson a gwerthoedd cyffredin ar draws cyfnodau addysg.
- Cymuned ddysgu broffesiynol ar y cyd.
- Ymgysylltu cyson â rhieni ar draws y cyfnod cynradd ac uwchradd.
- Arbenigedd ar draws yr ystod oedran lawn.
- Cyfleoedd datblygu proffesiynol i staff mewn amgylchedd ysgol pob oed.
- Mwy o ffocws ar brosesau pontio allweddol yn enwedig rhwng Cyfnod Allweddol 2 a'r cyfnod uwchradd gan sicrhau yr adeiledir ar gynnydd o ran dysgu o un flwyddyn i'r llall gyda chyn lleied â phosibl o darfu wrth i'r plentyn symud drwy'r strwythur(au) dysgu.

- Un gyfundrefn atebolrwydd ac arolygu, gan gynnwys un Partner Gwella o'r Consortiwm.
- Un gyllideb ar draws yr ysgol, a fyddai'n symleiddio rheolaeth ariannol.
- Cyfle i gyflawni cost-effeithlonrwydd o ganlyniad i gydleoli ar un safle a rhesymoli contractau gwasanaethau cymorth megis cynnal a chadw tir yr ysgol.
- Cael gwared ar ddyblygu datganiadau data a data cyfrifiadau disgyblion.

Effaith ar y gymuned

Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned i bennu sut y byddai'r cynnig yn effeithio ar y gymuned leol. Cyhoeddwyd yr ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori ac nid yw'r Cyngor wedi cael unrhyw adborth uniongyrchol ar y cynnwys. Cafodd y cynnig gwreiddiol ei ddiwygio yn dilyn ymgynghori i fynd i'r afael â phryderon a godwyd gan ymgynghoreion fel rhan o'r broses ymgynghori.

Mae'r asesiad o'r effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol ar draws 1 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol ar draws 7 o'r 8 mesur a aseswyd. Ar y cyfan, byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Byddai'r cynnig yn galluogi Ysgol Gyfun y Bont-faen i barhau â'i llwyddiant gan ddarparu ar gyfer poblogaeth ddisgyblion fwy. Byddai'n darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu mewn ymateb i newid ac a fydd yn herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu llawn botensial. Byddai'r cynnig yn cynnal ac yn cynyddu lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

Byddai angen i'r goblygiadau o ran trafndiaeth gael eu hystyried yn ofalus yn ystod y broses o ddylunio'r ysgol newydd i gyfyngu ar effaith y nifer uwch o ddisgyblion a fydd yn teithio i'r safle.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn dod i'r casgliad y byddai'r cynnig i sefydlu ysgol pob oed fel bod 210 o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg gyda 48 o leoedd meithrin rhan-amser ychwanegol yn diwallu anghenion y gymuned yn well i sicrhau'r cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad o leoedd mewn ysgolion a'r galw amdanynt.

Ni chyflwynwyd unrhyw awgrymiadau ychwanegol mewn perthynas â'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn ystod yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, roedd nifer o ymatebion yn nodi eu bod yn credu y byddai'r cynnig yn arwain at gynnydd mewn cyfleoedd i gymuned y Bont-faen ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol.

Trefniadau teithio

Mae'r Cyngor yn deall pryderon ymgynghoreion ynghylch yr effaith y gallai'r cynnig hwn ei chael ar draffig o amgylch safle presennol Ysgol Gyfun y Bont-faen. Fodd bynnag, pe bai'r cynnig hwn yn cael ei gymeradwyo, byddai proses statudol ar wahân yn dilyn i archwilio pryderon cynllunio gan gynnwys traffig, mynediad a pharcio er mwyn cymeradwyo caniatâd cynllunio.

Fel a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, byddai asesiad trafndiaeth llawn yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ddylunio ar gyfer yr adeilad ysgol newydd. Byddai hwn yn

asesu'r effaith ar y seilwaith lleol ac yn cynnwys dadansoddiad llwybr ysgubedig i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth gyfredol ar hygyrchedd ar gyfer yr holl wasanaethau brys. Byddai'r asesiad trafndiaeth yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses ddylunio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a gâi eu hadnabod.

Deallir bod traffig ar hyd ac o amgylch Aberthin Road yn achosi pryder yn lleol ac yr ystyrir nad yw'r llwybr troed o dan y ffordd osgoi wedi'i oleuo'n ddigonol i fod yn llwybr cerdded cyfforddus. Amodau lleol penodol fel y rhain fyddai'n cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad trafndiaeth. Byddai mesurau'n cael eu hadnabod wedyn i liniaru effeithiau negyddol a gwella llwybrau diogel i'r ysgol. Mae cyfle trwy'r broses dylunio ac adeiladu i wella llwybrau cysylltiol i wella diogelwch y llwybrau a mwynhad ohonynt. Byddai Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor yn cydweithio'n agos gyda'r Corff Llywodraethu trwy'r broses ddylunio ar hyn a materion eraill.

Byddai'r dyluniad terfynol yn amodol ar ganiatâd cynllunio. Mae'r broses gynllunio'n cynnwys ymgynghoriad statudol â phreswylwyr lleol. I ddechrau, mae Ymgynghori Cyn Ymgeisio yn galluogi preswylwyr i ddarparu adborth ar y dyluniad arfaethedig, yn ogystal â'r asesiad trafndiaeth, ar gyfer y contractwr. Wedyn byddai dyluniadau terfynol yn ddarostyngedig i'r broses gynllunio ffurfiol. Byddai preswylwyr lleol yn cael eu hysbysu ynghylch y cais cynllunio ac yn gallu cyflwyno adborth a fyddai'n cael ei ystyried gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor.

Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai teithio llesol yn ystyriaeth bwysig o fewn dyluniad y safle i roi cymorth i wireddu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Byddai lle ychwanegol i storio beiciau a sgwteri yn cael ei ddarparu ar safle newydd yr ysgol i roi anogaeth ar gyfer teithio llesol i'r ysgol lle y bo'n bosibl. Fel rhan o'r ddarpariaeth wynebaw meddal, byddai Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif a'r contractwyr yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu cynllun teithio wedi'i ddiweddarau a fyddai'n cefnogi mesurau i gynyddu teithio llesol i'r ysgol ac o'r ysgol i gyfleusterau cymunedol lleol.

Gallai'r ysgol weithredu amseroedd dechrau a gorffen graddol ar gyfer y cyfnodau cynradd ac uwchradd i amharu gyn lleied â phosibl, fel sy'n digwydd yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, ysgol pob oed 3-19 yn y Barri. Gallai'r ysgol wahanu amseroedd traffig brig ymhellach trwy ofal cofleidiol a chlybiau ar ôl ysgol.

O ran cludiant am ddim i'r ysgol, mae'r dalgylch arfaethedig yn gymharol fach oherwydd dwysedd y boblogaeth yn y Bont-faen ac ni ragwelir y byddai gan lawer o ddisgyblion hawl i gludiant am ddim i'r ysgol. Er enghraifft, nid oes gan unrhyw ddisgyblion hawl i gludiant am ddim i Ysgol Gynradd y Bont-faen ar hyn o bryd.

Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer plant oed meithrin ac eithrio'r plant hynny sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Dan y cynigion hyn nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludiant ar gyfer plant i ac o ysgolion.

Er bod nifer o ymatebion yn cynnwys pryderon neu ymholiadau ynghylch rheoli traffig, dylid nodi hefyd bod nifer o ymatebwyr yn teimlo y byddai'r cynnig hwn yn fuddiol i rieni â phlant yn y ddau gyfnod addysg gan mai dim ond i un ysgol y byddai angen iddynt deithio.

Atodiad A - Crynodeb o'r materion allweddol a godwyd gan ymgynghori statudol ac ymateb y Cyngor

Mae'r canlynol yn crynhoi'r materion allweddol a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol. Mae'r materion yn cyflwyno trosolwg o ymatebion ac nid ydynt wedi'u bwriadu i fod yn gofnod gair-am-air. Trefnwyd fod yr holl ymatebion ysgrifenedig ar gael i aelodau Cabinet y Cyngor.

Mater 1 – Ymatebion yn erbyn model ysgol pob oed

1.1 Byddai model ysgol pob oed yn niweidion i ofal bugeiliol a diogelwch.

Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai model ysgol pob oed ar gyfer Ysgol Gyfun y Bont-faen yn niweidiol i blant y cyfnod cynradd a meithrin o ran gofal bugeiliol a diogelwch. Roedd pryder arbennig ynghylch sut y byddai'r disgyblion cynradd ac uwchradd yn cael eu cadw ar wahân ar safle a rennir. Nodwyd y byddai dod i gysylltiad â materion ymddygiadol penodol yn risgiau i ddisgyblion cynradd a fyddai'n deillio o rannu safle gyda disgyblion uwchradd gan gynnwys rhegi a bwlio.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Gofal Bugeiliol

Er mai arweinwyr Ysgol Gyfun y Bont-faen fyddai'n gyfrifol am y cyfnod cynradd, byddai staff cynradd arbenigol yn cael eu recriwtio ar gyfer y cyfnod cynradd. Byddai'r corff llywodraethu a'r uwch dîm arwain hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod y cyfnod cynradd wedi'i gynnwys. Mae'r model ysgol pob oed yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol ac yn darparu ar gyfer defnydd effeithlon o adnoddau a chyfleusterau y gellir eu rhannu ar draws y cyfnod cynradd ac uwchradd. Byddai'r ysgol yn parhau i gael ei chefnogi gan y Cyngor, CACDC ac Estyn, a fyddai'n cefnogi'r ysgol gyfan.

Mae ysgolion pob oed wedi dod yn fwy poblogaidd dros y blynyddoedd diwethaf gyda 21 o ysgolion pob oed ledled Cymru a 5 arall i fod i agor dros y 3 blynedd nesaf. Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg oedd ysgol pob oed gyntaf y Cyngor, a sefydlwyd yn dilyn uno Ysgol Gyfun Bro Morgannwg ac Ysgol Nant Talwg ym mis Medi 2015. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf gan Estyn ym mis Gorffennaf 2019 a barnwyd fod 'lles ac agweddau at ddysgu' a 'gofal, cymorth ac arweiniad' yn 'rhagorol'.

Mae polisiau i ymdrin â bwlio a gwarchod lles disgyblion eisoes wedi'u hen sefydlu yn Ysgol Gyfun y Bont-faen a gellid eu datblygu ymhellach gydag arbenigeddau cynradd. Gallai disgyblion cynradd gyfranogi mewn gwasanaethau mentora gan gymheiriaid a lles sydd ar gael fel rhan o "Gynllun Lles" yr ysgol uwchradd. Gallai hyn gynnwys cyfleoedd i ddisgyblion yr ysgol uwchradd weithredu fel mentoriaid i helpu disgyblion cynradd wrth bontio i flwyddyn 7.

Diogelwch

Er mai cynnig i estyn ystod oedran Ysgol Gyfun y Bont-faen i sefydlu ysgol pob oed yw hwn, byddai'r cyfnodau cynradd ac uwchradd ar wahân, gan ddefnyddio adeiladau ar wahân. Byddai adeilad newydd yn cael ei adeiladu ar safle Ysgol

Gyfun y Bont-faen. Byddai'r adeilad hwn yn ddigon mawr ar gyfer 210 o ddisgyblion a 48 o leoedd meithrin rhan-amser, ac yn cydymffurfio â Bwletin Adeiladu 99, y fframwaith ar gyfer adeiladau ysgolion cynradd. Byddai adeilad yr ysgol o'r un maint ac o ddyluniad tebyg i Ysgol Gynradd Oak Field yn y Barri, a gyflawnwyd fel rhan o Fand A Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Byddai adeilad yr ysgol yn cynnwys ystafelloedd dosbarth, prif neuadd ar gyfer chwaraeon a bwyta, swyddfeydd ar gyfer uwch aelodau o staff a staff gweinyddol, ystafell athrawon, ac ardaloedd ymneilltuo ar gyfer ymyriadau a roddir i ddisgyblion.

Byddai ffens o amgylch yr ysgol i ddiogelu disgyblion cynradd gyda mynediad ag intercom ar gyfer ymwelwyr. O fewn tir y cyfnod cynradd, byddai ardaloedd chwarae awyr agored, man chwarae amldefnydd (MUGA) ac ardaloedd cynefin ar gyfer darpariaeth ysgol goedwig ac i wella lles disgyblion.

Mantais model ysgol pob oed yw bod rhai cyfleusterau'n gallu cael eu rhannu ar draws y cyfnod cynradd ac uwchradd. Fel ysgol uwchradd, mae gan Ysgol Gyfun y Bont-faen gyfleusterau ychwanegol na fyddai gan ysgol gynradd fynediad atynt fel arfer. Mae'r rhain yn cynnwys man perfformio, ystafell ffitrwydd, neuadd chwaraeon â 4 cwrn, ystafelloedd dosbarth arbenigol a chae pob tywydd 3G. Byddai'r defnydd o'r cyfleusterau hyn yn cael ei amserlennu a'i reoli gan staff yr ysgol i sicrhau diogelwch a lles disgyblion y cyfnod cynradd.

1.2 Pryderon ynghylch yr effaith ar ddeilliannau addysgol

Cododd ymatebwyr bryderon nad oes tystiolaeth empirig bod ysgolion mawr neu bob oed yn perfformio'n dda o ran cyrhaeddiad addysgol. Nodwyd hefyd nad yw cyflwyno model ysgol pob oed yn bolisi sydd wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Fel a nodir yn yr ymateb a gafwyd gan Estyn, 'mae'n debygol y bydd y cynnig o leiaf yn cynnal safonau presennol addysg a'r ddarpariaeth yn yr ardal'. Yn yr arolygiad diweddaraf gan Estyn ym mis Ebrill 2019, barnwyd fod Ysgol Gyfun y Bont-faen yn 'rhagorol' ym mhob un o'r pum maes arolygu. Fe grynodd Estyn fod 'arweinyddiaeth gref, sicr, cynllunio'r cwricwlwm yn ofalus ac addysgu sy'n gyson yn effeithiol i addysgu ac ysbrydoli pobl ifanc wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau lefelau eithriadol o uchel o gyrhaeddiad a lles disgyblion yn Ysgol Gyfun y Bont-faen.' Mae uwch arweinwyr Ysgol Gyfun y Bont-faen wedi bod yn llwyr gefnogol i'r cynnig hwn.

Nid yw'r Cyngor o'r farn y byddai model ysgol pob oed ar ei ben ei hun yn arwain at ddeilliannau addysgol gwell ar gyfer dysgwyr. Diben y cynnig hwn yw ateb y galw uwch am addysg gynradd yn y Bont-faen o ganlyniad i ddatblygiadau tai diweddar ac arfaethedig. Cynhaliodd y Cyngor asesiad dichonoldeb i bennu a oedd yn bosibl ehangu Ysgol Gynradd y Bont-faen ar ei safle presennol. Diystyriwyd hyn oherwydd materion topograffigol gyda'r safle presennol, yr effaith y byddai'r nifer uwch yn ei chael ar y seilwaith lleol a'r mynediad cyfyngedig ar gyfer adeiladu a fyddai'n arwain at gostau sylweddol uwch i adeiladu'r ysgol. Nid yw'r safle ysgol arfaethedig ar ddatblygiad tai Fferm y Darren i fod i drosglwyddo i'r Cyngor nes bydd pobl yn byw mewn 150 o anheddau a barnwyd ei fod yn fwy addas i gefnogi ehangiad addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol oherwydd ei agosrwydd at yr A48. Felly, barnwyd

mai Ysgol Gyfun y Bont-faen oedd y safle mwyaf priodol i ehangu addysg cynradd cyfrwng Saesneg.

Fe wnaeth y Cyngor ystyried ystod o ysgolion ledled y Fro lle mae mwy nag un ysgol yn rhannu un safle, gan gynnwys;

- Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg – Ysgol pob oed gyda chyfnodau cynradd ac uwchradd ar un safle gyda dau adeilad ar wahân.
- Cymuned Ddysgu Llanilltud Fawr – Tair ysgol ar wahân (dwy ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd) sy'n rhannu un safle gyda thri adeilad a chorff llywodraethu ar wahân. Ceir canolfan hamdden ar y safle hefyd mewn adeilad hunangynhaliol.
- Cymuned Ddysgu Penarth – Dwy ysgol ar wahân a chanddynt eu cyrff llywodraethu eu hunain (un ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig pob oed) sy'n rhannu un safle gydag adeilad pâr.

Ystyriwyd fod y model pob oed yn darparu mwy o gyfleoedd i gynyddu'r cyfleusterau i'r eithaf ar draws un safle gydag un tîm rheoli'n gyfrifol am reoli pob cyfnod. Mae ysgol pob oed hefyd yn sicrhau bod dull ar y cyd o reoli'r safle, gan gynnwys rheoli mannau parcio, gollwng a chodi. Mae hyn yn cynnwys amseriadau diwrnodau ysgol ac un cynllun rheoli traffig.

Nid yw'r Cyngor wedi datblygu polisi sy'n ffafrio'r model ysgol pob oed dros fodelau addysg eraill. Mae'r Cyngor yn ystyried pob cynnig ar sail unigol i adnabod y model addysg mwyaf priodol.

1.3 Pryderon ynghylch rôl arweinwyr ac arbenigedd cynradd.

Cododd ymatebwyr bryderon ynghylch yr angen i fod â thimau arwain profiadol ar wahân ar gyfer pob cyfnod. Pwysleisiodd ymatebwyr fod anogaeth ar gyfer plant cynradd yn wahanol i'r cymorth y mae ei angen yn y cyfnod uwchradd a bod angen i'r uwch arweinwyr adlewyrchu'r arbenigeddau gwahanol hyn. Awgrym arall yn lle'r cynnig yw bod yr ysgol gynradd newydd yn cael ei chodi ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen ond ei bod yn gweithredu ar wahân gyda'i thîm rheoli a'i strwythur staffio ei hun.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Mae ysgol pob oed yn fodel addysg sy'n cyfuno mwy nag un cyfnod yn addysg plentyn mewn un sefydliad addysg. Yng nghyd-destun y cynnig hwn, byddai'n golygu bod y cyfnodau cynradd ac uwchradd yn cael eu rheoli fel un ysgol. Byddai un pennaeth a chorff llywodraethu â chyfrifoldeb ar y cyfan am bob cyfnod addysg.

Un o'r ffactorau allweddol ar gyfer llwyddiant ysgol yw'r staff a'r arweinwyr. Barnodd Estyn yn ddiweddar fod arweinwyr presennol Ysgol Gyfun y Bont-faen yn "Rhagorol".

Er bod yr holl gyfnodau addysg yn cael eu rheoli fel un sefydliad, byddai'r cyfnod cynradd yn dal i fod ag arweinydd (mewn modelau blaenorol Pennaeth y Cyfnod Cynradd fu hwn) a byddai'n cael ei leoli mewn adeilad ar wahân wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer disgyblion cynradd.

Yn ystod y cyfnod rhoi ar waith pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai corff llywodraethu Ysgol Gyfun y Bont-faen yn pontio i'r model ysgol pob oed. Er enghraifft, bydd 4 o'r 6 lle ar gyfer rhiant-lywodraethwyr yn Ysgol Gyfun y Bont-faen yn dod i ben yn 2023 felly byddech yn disgwyl i'r lleoedd hynny fod yn fwy cynhwysol o ran y ddau gyfnod wrth edrych tua'r dyfodol. Gallai'r 2 le ar gyfer llywodraethwyr o blith athrawon gael eu rhannu rhwng y ddau gyfnod (cynradd ac uwchradd) yn y dyfodol hefyd a byddech fel arfer yn disgwyl i Bennaeth y Cyfnod Cynradd fynychu cyfarfodydd y corff llywodraethu fel sylwedydd o ran arfer da.

Yn seiliedig ar brofiadau blaenorol, mae'r Cyngor o'r farn bod nifer o fanteision yn gysylltiedig â'r model ysgol pob oed, gan gynnwys:

- Gweledigaeth gyson a gwerthoedd cyffredin ar draws cyfnodau addysg.
- Cymuned ddysgu broffesiynol ar y cyd.
- Ymgysylltu cyson â rhieni ar draws y cyfnod cynradd ac uwchradd.
- Arbenigedd ar draws yr ystod oedran lawn.
- Cyfleoedd datblygu proffesiynol i staff mewn amgylchedd ysgol pob oed.
- Mwy o ffocws ar brosesau pontio allweddol yn enwedig rhwng Cyfnod Allweddol 2 a'r cyfnod uwchradd gan sicrhau yr adeiledir ar gynnydd o ran dysgu o un flwyddyn i'r llall gyda chyn lleied â phosibl o darfu wrth i'r plentyn symud drwy'r strwythur(au) dysgu.
- Un gyfundrefn atebolrwydd ac arolygu, gan gynnwys un Ymgynghorydd Her o'r Consortiwm.
- Un gyllideb ar draws yr ysgol, a fyddai'n symleiddio rheolaeth ariannol.
- Cyfle i gyflawni cost-effeithlonrwydd o ganlyniad i gydleoli ar un safle a rhesymoli contractau gwasanaethau cymorth megis cynnal a chadw tir yr ysgol.
- Cael gwared ar ddyblygu datganiadau data a data cyfrifiadau disgyblion.

Byddai'r model hwn yn galluogi'r cyfnod uwchradd i barhau i berfformio'n dda, gan ddarparu'r cyfle i'r cyfnod cynradd newydd fanteisio ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag ysgolion pob oed.

1.4 Ni fydd model pob oed yn cynnig arbedion ariannol

Yn gysylltiedig â'r mater uchod, holodd un ymateb, os nad oes unrhyw arbedion ariannol i'w cael o drefniadau staffio model pob oed (oherwydd yr angen am ddirprwy bennaeth / pennaeth cynradd) yna pam na ddylai'r ysgolion fod yn gweithredu ar wahân ar yr un safle? Roedd ymatebion yn cwestiynu'r syniad o agor ysgol newydd o safbwynt ariannol hefyd, yn hytrach nag ehangu'r ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd y Bont-faen.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Nid yw'r cynnig wedi cael ei lunio er mwyn dwyn arbedion ariannol, fe'i datblygwyd i

ymateb i'r galw uwch o ddatblygiadau tai ac i gyflawni hyn trwy'r model addysg mwyaf priodol ar gyfer yr achos hwn.

Fel a nodir uchod, cafodd safle Ysgol Gyfun y Bont-faen ei adnabod fel y safle a ffeirir ar gyfer ehangu addysg cyfrwng Saesneg a chafodd safle Fferm y Darren ei adnabod fel y safle a ffeirir ar gyfer ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Gan y byddai'r opsiwn a ffeirir ar gyfer ehangu addysg cyfrwng Saesneg yn golygu bod dwy ysgol yn rhannu un safle, rhoddwyd ystyriaeth i'r model addysg mwyaf priodol. Penderfynwyd mai model pob oed oedd y mwyaf addas. Nid yw'r Cyngor yn ystyried bod ehangu Ysgol Gynradd y Bont-faen i wneud lle i 420 o ddisgyblion yn opsiwn dichonadwy oherwydd materion topograffigol gyda'r safle presennol, yr effaith y byddai'r nifer uwch yn ei chael ar y seilwaith lleol a'r mynediad cyfyngedig ar gyfer adeiladu a fyddai'n arwain at gostau sylweddol uwch i adeiladu'r ysgol.

Mae'r ymateb yn nodi y gallai darpariaeth staffio debyg fodoli mewn model sy'n gweithredu ar wahân a model pob oed. Eto, mae'n bwysig pwysleisio nad arbedion ariannol sydd wedi ysgogi'r cynnig hwn; penderfynodd y Cyngor mai'r model pob oed oedd yn darparu'r cyfleoedd mwyaf ar gyfer cydweithio, arbedion effeithlonrwydd a rheoli'r safle'n well. Fodd bynnag, ar y cyfan mae ysgolion mwy yn gallu sicrhau gwerth gwell am arian trwy ddarbedion maint a gall un gyllideb fod yn haws i'w rheoli, e.e. cyfrifo am wariant ar gynnal a chadw'r safle a fyddai o fudd i'r cyfnodau cynradd ac uwchradd o'i gymharu â gweinyddu dau contract gwahanol. Gan bod cyllid ysgolion yn cael ei ddsbarthu trwy'r fformiwla cyllido ysgolion, byddai arbedion effeithlonrwydd yn cael eu cadw gan yr ysgol.

Byddai'r cynnig blaenorol wedi ehangu Ysgol Gynradd y Bont-faen ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen o 210 i 420 o leoedd cynradd fel rhan o fodel pob oed. Gan bod nifer o bryderon wedi cael eu codi gan y gymuned, fe wnaeth y Cyngor ddiwygio'r cynnig er mwyn estyn ystod oedran Ysgol Gyfun y Bont-faen a chreu ysgol gynradd â 210 o leoedd ar yr un safle yn lle hynny. Canlyniad y naill gynnig neu'r llall fyddai creu 210 o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg ychwanegol yn ardal y Bont-faen i ateb y galw lleol o ddatblygiadau tai diweddar ac arfaethedig. Felly, byddai costau refeniw i'r Cyngor yn cynyddu dan y naill gynnig neu'r llall gan bod dyletswydd ar y Cyngor i ateb y galw lleol am addysg.

1.5 Gallai'r cyfnod cynradd gael ei fwrw i'r cysgod gan y cyfnod uwchradd

Nododd Estyn nad yw'n ddigon eglur sut y bydd y pennaeth yn sicrhau nad yw blaenoriaethau'r cyfnod cynradd yn cael eu 'bwrw i'r cysgod gan y cyfnod uwchradd o ran gwneud penderfyniadau'.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Byddai dwy gyllideb ar wahân yn cael eu dyrannu i'r ysgol pob oed gan y Cyngor ar gyfer y cyfnodau cynradd ac uwchradd. Byddai hyn yn sicrhau bod y corff llywodraethu a'r pennaeth yn gallu gweld dadansoddiad o gyllid yr ysgol ar y cyfan.

Byddai angen i'r corff llywodraethu ddiweddarau ei amodau gorchwyl i adlewyrchu'r ffaith bod y cyfnod cynradd wedi'i gynnwys. Byddai angen i gyfansoddiad y corff llywodraethu adlewyrchu hyn hefyd gyda staff a chynrychiolwyr o blith y rhieni ar gyfer y cyfnod cynradd. Y corff llywodraethu a'r pennaeth fyddai'n gyfrifol am ddatblygu strwythur staffio ar gyfer yr ysgol pob oed newydd i sicrhau sgiliau a

phrofiad priodol. Byddai strwythur pwyllgorau'r corff llywodraethu'n cael ei adolygu hefyd i sicrhau bod digon o her a throsolwg mewn perthynas â'r cyfnod cynradd.

Byddai'r ysgol yn cael ei chefnogi gan y Cyngor a CACCDC trwy gydol y cyfnod pontio ac yn dilyn rhoi'r cynnig hwn ar waith. Byddai'r ysgol yn cael ei harolygu fel un ysgol a fyddai'n ystyried y cyfnodau addysg cynradd ac uwchradd.

Byddai angen i bolisiâu a gweithdrefnau gael eu hadolygu hefyd i sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer ysgol pob oed.

Mater 2 – Ymatebion yn erbyn newidiadau i gapasiti a derbyniadau

2.1 Byddai trefniadau pontio'n peri anfantais i ddisgyblion ysgolion eraill ac yn effeithio'n negyddol ar dderbyn disgyblion i'r ysgolion hynny

Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai'r trefniadau derbyn arfaethedig yn rhoi mantais annheg i ddisgyblion yr ysgol pob oed arfaethedig, a fyddai'n trosglwyddo'n awtomatig o'r cyfnod cynradd i'r cyfnod uwchradd, o'i gymharu â disgyblion o ysgolion lleol eraill a fyddai'n gorfod ymgeisio ar ddiwedd y cyfnod cynradd. Codwyd pryderon ynghylch yr effaith y byddai hyn yn ei chael ar niferoedd derbyn ysgolion lleol eraill. Awgrymwyd hefyd y gallai rhieni symud allan o'r dalgylch unwaith y byddai eu plentyn wedi cael lle yn yr ysgol a'r plentyn hwnnw'n dal i drosglwyddo'n awtomatig i'r cyfnod uwchradd.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Un o fanteision allweddol y model ysgol pob oed yw y byddai disgyblion o'r cyfnod cynradd yn trosglwyddo'n awtomatig o flwyddyn 6 i flwyddyn 7 heb yr angen i wneud cais am le. Byddai hyn yn golygu y terfir gyn lleied â phosibl ar ddisgyblion a rhieni.

30 o leoedd ar gyfer disgyblion fyddai nifer derbyn yr ysgol gynradd o fis Medi 2022. Mae'r amcanestyniadau'n dynodi y byddai'r nifer hwn yn ddigonol i ateb y galw am addysg gynradd yn dalgylch yr ysgol yn y dyfodol.

Diben y cynnig hwn yw ateb galw uwch o fewn ardal y Bont-faen o ganlyniad i ddatblygiadau tai. Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith arwyddocaol ar ysgolion cynradd eraill yn yr ardal leol am y rhesymau canlynol:

- Mae'r capasiti ychwanegol wedi'i fwriadu i ateb galw uwch o fewn y dalgylch;
- Byddai dalgylch y cyfnod cynradd yr un fath ag un Ysgol Gynradd y Bont-faen;
- Nid oes unrhyw gynigion i gau unrhyw ysgolion cyfagos; a
- Byddai'r ffrwd fwy'n cael ei chyflwyno'n raddol gyda 30 o leoedd derbyn a 48 o leoedd meithrin rhan-amser ar gael o fis Medi 2022. Felly, byddai'n cymryd 7 mlynedd i'r disgyblion derbyn cychwynnol fwydo i mewn i'r cyfnod uwchradd.

Nid yw'r Cyngor yn rhagweld y bydd nifer fawr o ddisgyblion y tu allan i'r dalgylch yn cael eu derbyn i gyfnod cynradd yr ysgol pob oed.

Pe bai'r ysgol yn cael mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, byddai

ceisiadau'n cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf goralw. Mae'r rhain yn blaenoriaethu derbyn y canlynol;

- Plant sy'n derbyn gofal;
- Y rhai sy'n byw yn y dalgylch; a hefyd
- Y rhai â sibling yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor yn nodi y gallai fod sefyllfaoedd lle nad yw disgyblion yn byw yn y dalgylch mwyach pan ydynt yn trosglwyddo o'r cyfnod cynradd i'r cyfnod uwchradd. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y byddai hyn yn effeithio'n negyddol ar ysgolion lleol gan bod Ysgol Gyfun y Bont-faen eisoes yn dyrannu lleoedd i ddisgyblion sy'n byw'r tu allan i ddalgylch yr ysgol uwchradd.

Ym mis Medi 2020, dim ond 145 (60%) o'r 240 o bobl y dyrannwyd lle iddynt oedd yn byw o fewn y dalgylch. O'r 1,541 o ddisgyblion sydd ar y gofrestr yn Ysgol Gyfun y Bont-faen ar hyn o bryd, dim ond 1065 (69%) sy'n byw yn y dalgylch. Mae hyn yn golygu bod 476 (31%) o ddisgyblion ar y gofrestr yn byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol ar hyn o bryd. Mae'r meini prawf goralw'n rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch. Felly, byddai'r cynnig hwn yn arwain at gydbwysedd mwy effeithlon rhwng y galw am leoedd uwchradd a'r cyflenwad ohonynt yn nalgylch Ysgol Gyfun y Bont-faen.

2.2 Byddai colli proses o bontio i safle ysgol newydd yn niweidiol i brofiadau disgyblion

Cododd ymatebion bryderon y byddai disgyblion yn colli profiad datblygu allweddol trwy beidio â throsglwyddo i ysgol uwchradd ar wahân.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Cydnabyddir yn eang bod y broses o bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn amser problemus i ddisgyblion ysgolion cynradd. Gall newid yn yr amgylchedd a'r staff addysgu arwain at ostyngiad mewn disgwyliadau, ac mae safonau disgyblion yn aml yn gostwng hefyd. Yn emosiynol, gall hefyd fod yn brofiad brawychus i ddisgyblion pan ydynt yn mynd o gymuned glos, fechan i ysgol uwchradd fwy, o ran daearyddiaeth ac o ran y boblogaeth. Gall fod yn brofiad llethol, hyd yn oed i'r disgybl mwyaf hyderus ym mlwyddyn 6.

Gallai trefniadau pontio dan y cynnig hwn fod o fantais gan y byddai disgyblion yn gyfarwydd â chyfleusterau'r ysgol uwchradd ac y byddent yn teimlo bod disgyblion hŷn yn llai o fygythiad gan y byddent wedi arfer eu gweld o amgylch y safle. Byddai disgyblion hefyd yn fwy cyfarwydd â staff yn enwedig os ydynt yn gweithredu ar draws y ddau gyfnod.

Gallai'r disgyblion sy'n trosglwyddo'n awtomatig i'r cyfnod uwchradd gefnogi eu cyfoedion sydd wedi trosglwyddo o ysgolion cynradd eraill. Gallent wella cynefindra â'r amgylchedd newydd a gallent rannu eu profiadau o fod yn rhan o'r ysgol pob oed.

Byddai'r adeiladau cynradd ac uwchradd ar wahân i'w gilydd gydag ardaloedd awyr agored ar gyfer pob cyfnod ac felly byddai newid o hyd wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd o ran cyfleusterau. Byddai disgyblion hefyd yn dal i brofi'r

newid yn y cwricwlwm rhwng y cynradd a'r uwchradd.

2.3 Pryderon a os digon o gapasiti yn Ysgol Gyfun y Bont-faen ar gyfer y disgyblion ychwanegol sy'n trosglwyddo o'r cyfnod cynradd

Fe wnaeth ymatebion godi pryderon na fyddai digon o leoedd uwchradd ar gael i ddisgyblion lleol pe bai'r cyfnod cynradd yn cael ei ehangu.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Ystyrir bod capasiti presennol Ysgol Gyfun y Bont-faen yn addas i ateb y galw uwch am addysg uwchradd yn y dalgylch. Er bod goralw cyson am leoedd yn Ysgol Gyfun y Bont-faen, mae'r ysgol yn denu nifer fawr o geisiadau o'r tu allan i'r dalgylch.

Ym mis Medi 2020, dim ond 145 (60%) o'r 240 o ddisgyblion y dyrannwyd lle iddynt oedd yn byw yn y dalgylch. O'r 1,541 o ddisgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd yn Ysgol Gyfun y Bont-faen, dim ond 1065 (69%) sy'n byw yn y dalgylch. Mae hyn yn golygu bod 476 (31%) o'r disgyblion sydd ar y gofrestr yn byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol ar hyn o bryd. Er bod y meini prawf goralw'n rhoi blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw yn y dalgylch, mae poblogaeth y dalgylch yn llai na chapasiti'r ysgol. Felly, byddai'r cynnig hwn yn arwain at gyflenwad a galw mwy effeithlon lle mae lleoedd uwchradd yn dalgylch Ysgol Gyfun y Bont-faen yn y cwestiwn.

Mae'r Cyngor yn monitro trefniadau derbyn ledled Bro Morgannwg yn barhaus ac mae'n ymgynghori'n flynyddol.

2.4 Ni fydd angen capasiti ychwanegol gan bod Covid-19 wedi arafu datblygiad Fferm y Darren

Awgrymodd ymatebion y byddai'r sefyllfa gyfredol gyda Covid-19 yn golygu y byddai dirwasgiad economaidd ac felly na fyddai'r tai yn natblygiad Fferm y Darren yn cael eu codi. Byddai hyn yn golygu na fyddai angen cynyddu capasiti yn ardal leol y Bont-faen.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Mae'r safle i'r gogledd orllewin o'r Bont-faen (y cyfeirir yn eang ato fel Fferm y Darren) wedi'i ddyrannu o fewn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd gan y Cyngor (2011-2026) ar gyfer 475 o anheddau. Mae gan y safle ganiatâd cynllunio amlinellol (cyfeirnod 2014/01505/OUT) a chaniatâd materion a gadwyd yn ôl (cyfeirnodau 2017/00841/RES a 2018/00240/RES) ac mae gwaith adeiladu'n digwydd ar y safle ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor mewn deialog barhaus gyda Taylor Wimpey ynghylch y cynnydd gyda'r safle, ac mae'r tai a gwblhawyd hyd yma wedi bod yn unol ag amcanestyniadau tai'r Cyngor. Nid oes rheswm dros gredu na fydd y datblygiad yn cael ei gwblhau, a rhagwelir y bydd y datblygiad yn cael ei gwblhau o fewn cyfnod y Cynllun, h.y. cyn 2026, gan ddibynnu ar gyfraddau gwerthu.

Roedd goralw yn Ysgol Gynradd y Bont-faen ar gyfer ffrwd y derbyn ar gyfer 2019/20. Dyrannwyd lleoedd i 40 o ddisgyblion i osgoi gwrthod lle i ddisgyblion yn y dalgylch, sy'n 10 yn fwy na nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol. Ni fyddai mynd

ymhellach byth dros y nifer derbyn cyhoeddedig yn gynaliadwy oherwydd maint cyfyngedig adeilad presennol yr ysgol.

Yn ffrwd y derbyn ar gyfer 2020/21, dynododd 35 o geisiadau ar gyfer plant a oedd yn byw o fewn y dalgylch eu bod yn ffafrio Ysgol Gynradd y Bont-faen. Dyrannwyd lle i 27 o ddisgyblion a oedd yn byw yn y dalgylch ar gyfer mis Medi 2020.

Fel a nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, mae datblygiadau ychwanegol wedi'u cynnwys yn CDLI y Cyngor a fydd hefyd yn arwain at alw ychwanegol am leoedd mewn ysgolion cynradd yn ardal y Bont-faen. Pe bai'r holl ddatblygiadau hyn yn mynd yn eu blaenau fel a nodir yn y CDLI, rhagwelir y byddai gan Ysgol Gynradd y Bont-faen ddiffyg o 55 o leoedd erbyn 2022 a 119 o leoedd erbyn 2024. Felly, mae angen cynyddu nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg yn y Bont-faen i fynd i'r afael â'r diffyg a ragwelir.

2.5 Byddai bod â dwy ysgol gynradd yn yr ardal leol yn hollti cymuned y Bont-faen

Roedd ymatebwyr yn pryderu y byddai bod â dwy ysgol gynradd yn yr ardal leol yn niweidiol i'r gymuned, yn enwedig pe bai'r dalgylch yn cael ei rannu.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Mae nifer o ysgolion cynradd o fewn radiws o 5 milltir i'r Bont-faen yn barod; gan gynnwys Ysgol Gynradd y Bont-faen ar gyfer cyfrwng Saesneg, Iolo Morganwg ar gyfer cyfrwng Cymraeg a Llanfair, Llangan, Dewi Sant a Llansanwyr ar gyfer addysg enwadol. Nid yw'n beth anghyffredin bod nifer o ysgolion wedi'u lleoli'n agos iawn at ei gilydd mewn ardaloedd trwchus eu poblogaeth. Er enghraifft, mae Ysgolion Cynradd Victoria, Fairfield, Evenlode ac Albert i gyd yn ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg agos at ei gilydd sy'n gwasanaethu Penarth.

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i sicrhau bod digon o leoedd ysgol ym Mro Morgannwg. Mae amcanestyniadau'n dynodi na fydd digon o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg ar gael yn dalgylch Ysgol Gynradd y Bont-faen i ateb y galw a ragwelir o fis Medi 2021. Gallai hyn olygu y gwrthodir derbyn disgyblion sy'n byw yn y dalgylch ac y cynigir lleoedd iddynt mewn ysgolion cynradd eraill. Gallai hyn gynyddu costau trafniadaeth os yw'r ysgol arall agosaf sy'n addas fwy na 2 filltir o'u man preswyllo.

Gan bod y galw uwch yn cael ei greu o fewn y dalgylch presennol o ganlyniad i ddatblygiadau tai cyfredol ac arfaethedig, byddai Ysgol Gynradd y Bont-faen a'r cyfnod cynradd arfaethedig yn yr ysgol 3-19 yn rhannu'r dalgylch presennol. Byddai hyn yn osgoi creu rhaniad diangen yng nghymuned y Bont-faen trwy rannu'r dref yn ddau ddalgylch ar wahân.

Wrth ymgeisio am leoedd mewn ysgolion, gall rhieni nodi mwy nag un dewis. Byddai'r rhai sy'n preswyllo yn y dalgylch yn gallu ymgeisio am le yn y ddwy ysgol i leihau i'r eithaf y siawns na ddyrennir lle iddynt. Caiff trefniadau derbyn a dalgylchoedd eu hadolygu gan y Cyngor yn flynyddol.

Fel a nodir uchod, fe wnaeth y Cyngor ystyried ehangu Ysgol Gynradd y Bont-faen ar ei safle presennol a chafodd hyn ei ddiystyru wedyn. Byddai cynnig gwreiddiol y

Cyngor wedi cynnal un cyfnod cynradd cyfrwng Saesneg yn y Bont-faen; fodd bynnag, ailystyriwyd hyn yn dilyn yr ymgynghoriad i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan ymatebwyr.

2.6 Nid yw'r cynnig yn mynd i'r afael â'r gorallw yn Ysgol Gynradd y Bont-faen

Cwestiynodd ymatebwyr sut y byddai'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r materion presennol o ran capasiti yn Ysgol Gynradd y Bont-faen gyda rhai grwpiau blwyddyn eisoes yn cynnwys mwy na 30 o ddisgyblion.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Mae'r Cyngor wedi gweithio'n flaenorol gydag Ysgol Gynradd y Bont-faen i ddyrannu lleoedd i fwy na 30 o ddisgyblion mewn grŵp blwyddyn er mwyn ateb y galw o fewn y dalgylch. Bu hyn yn seiliedig ar gyfrifiadau capasiti, a amlygodd fod yr adeilad presennol yn darparu digon o le i dderbyn y disgyblion ychwanegol hyn. Nid yw'r penderfyniadau hyn wedi bod yn seiliedig ar unrhyw gynnig posibl i ehangu Ysgol Gynradd y Bont-faen a byddai digon o le i'w derbyn trwy gydol eu hamser yn yr ysgol.

Byddai'r cynnig hwn yn atal hyn rhag digwydd yn y dyfodol trwy ddarparu digon o leoedd i ateb y galw a ragamcanir.

Mater 3 – Ymatebion yn erbyn y safle a ddewiswyd

3.1. Mae angen rhoi ystyriaeth ddifrifol i reoli traffig o amgylch safle Ysgol Gyfun y Bont-faen

Roedd ymatebion o'r farn bod cynyddu'r capasiti ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen yn ddewis annoeth gan y byddai tagfeydd traffig yn cael eu gwaethygu'n ddifrifol, yn enwedig ar hyd Aberthin Road. Byddai cynnydd mewn traffig a pharcio o amgylch safle Ysgol Gyfun y Bont-faen yn achosi risgiau i ddiogelwch plant bach, llygredd aer, ac anghyfleustra i breswylwyr a rhieni. Roedd rhai ymatebion yn nodi y byddai'r cynnig hwn yn gyfle da i ailystyried sut y rheolir traffig ar y safle cyfan.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Mae'r Cyngor yn deall pryderon preswylwyr ynghylch yr effaith y byddai'r cynnig hwn yn ei chael ar draffig. Mae'n bwysig nodi bod yr ymgynghoriad dan sylw'n cael ei redeg yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, sy'n canolbwyntio ar rinweddau addysgol cynnig. Fodd bynnag, pe bai'r cynnig hwn yn cael ei gymeradwyo, byddai proses statudol ar wahân yn dilyn i archwilio pryderon cynllunio gan gynnwys traffig, mynediad a pharcio er mwyn cymeradwyo caniatâd cynllunio.

Fel a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, byddai asesiad trafndiaeth llawn yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ddylunio ar gyfer yr adeilad ysgol newydd. Byddai hwn yn asesu'r effaith ar y seilwaith lleol ac yn cynnwys dadansoddiad llwybr ysgubedig i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth gyfredol ar hygyrchedd ar gyfer yr holl wasanaethau brys. Byddai'r asesiad trafndiaeth yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses ddylunio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a gâi eu hadnabod.

Deallir bod traffig ar hyd ac o amgylch Aberthin Road yn achosi pryder yn lleol ac yr ystyrir nad yw'r llwybr troed o dan y ffordd osgoi wedi'i oleuo'n ddigonol i fod yn llwybr cerdded cyfforddus. Amodau lleol penodol fel y rhain fyddai'n cael eu hystyried dan yr asesiad trafniadaeth fel rhan o'r broses ddylunio. Wedyn byddai mesurau'n cael ei hadnabod i liniaru effeithiau negyddol a gwella llwybrau diogel i'r ysgol. Mae cyfle trwy'r broses ddylunio ac adeiladu i wella llwybrau cysylltiol i wella diogelwch y llwybrau a mwynhad ohonynt. Byddai Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor yn cydweithio'n agos gyda'r Corff Llywodraethu trwy'r broses ddylunio ar hyn a materion eraill.

Byddai'r dyluniad terfynol yn amodol ar ganiatâd cynllunio. Mae'r broses gynllunio'n cynnwys ymgynghoriad statudol â phreswylwyr lleol. I ddechrau, mae Ymgynghori Cyn Ymgeisio yn galluogi preswylwyr i ddarparu adborth ar y dyluniad arfaethedig, yn ogystal â'r asesiad trafniadaeth, ar gyfer y contractwr. Wedyn byddai dyluniadau terfynol yn ddarostyngedig i'r broses gynllunio ffurfiol. Byddai preswylwyr lleol yn cael eu hysbysu ynghylch y cais cynllunio ac yn gallu cyflwyno adborth a fyddai'n cael ei ystyried gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor.

Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai teithio llesol yn ystyriaeth bwysig o fewn dyluniad y safle i roi cymorth i wireddu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Byddai lle ychwanegol i storio beiciau a sgwteri yn cael ei ddarparu ar safle newydd yr ysgol i roi anogaeth ar gyfer teithio llesol i'r ysgol lle y bo'n bosibl. Fel rhan o'r ddarpariaeth wynebaw meddal, byddai Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif a'r contractwr yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu cynllun teithio wedi'i ddiweddarau a fyddai'n cefnogi mesurau i gynyddu teithio llesol i'r ysgol ac o'r ysgol i gyfleusterau cymunedol lleol.

Gallai'r ysgol weithredu amseroedd dechrau a gorffen graddol ar gyfer y cyfnodau cynradd ac uwchradd i amharu gyn lleied â phosibl, fel sy'n digwydd yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, ysgol pob oed 3-19 yn y Barri. Gallai'r ysgol wahanu amseroedd traffig brig ymhellach trwy ofal cofleidiol a chlybiau ar ôl ysgol.

3.2 Mae Ysgol Gyfun y Bont-faen ar gyrion y dref ac yn rhy bell o'r datblygiad tai newydd i ddisgyblion gerdded

Roedd ymatebion yn nodi bod Ysgol Gyfun y Bont-faen yr ochr gyferbyn i'r Bont-faen i ddatblygiad Fferm y Darren ac y byddai hyn yn gwneud y siwrnai i'r ysgol yn anodd; yn enwedig cerdded i'r ysgol. Roedd un ymateb yn teimlo nad oedd hyn yn gyson ag egwyddorion "Cenedlaethau'r Dyfodol".

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Er mai ateb y galw am addysg gynradd o ganlyniad i ddatblygiadau tai diweddar ac arfaethedig yw'r prif ysgogiad ar gyfer y cynnig, nid yw'r cyfnod cynradd newydd wedi'i dargedu at unrhyw ardal benodol yn y Bont-faen. Byddai'r cynnig yn sicrhau bod digon o gapasiti cynradd cyfrwng Saesneg yn y Bont-faen. Byddai'r dalgylch ar gyfer y cyfnod cynradd yr un fath â dalgylch Ysgol Gynradd y Bont-faen. Byddai rhieni'n gallu ymgeisio am le yn y ddwy ysgol trwy ddynodi eu dewisiadau. Pe bai goralw am leoedd yn y ddwy ysgol, byddai lleoedd yn cael eu dyrannu yn seiliedig ar y meini prawf goralw.

Byddai'r cyfnod cynradd newydd arfaethedig oddeutu 1.8 milltir o ddatblygiad Fferm y Darren. Ystyrir bod hyn o fewn pellter cerdded yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Gludiant i'r Ysgol.

Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai teithio llesol yn ystyriaeth bwysig o fewn dyluniad y safle i roi cymorth i wireddu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Byddai lle ychwanegol i storio beiciau a sgwteri yn cael ei ddarparu ar safle newydd yr ysgol i roi anogaeth ar gyfer teithio llesol i'r ysgol lle y bo'n bosibl. Fel rhan o'r ddarpariaeth wynebaw meddal, byddai Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif a'r contractwyr yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu cynllun teithio wedi'i ddiweddarau a fyddai'n cefnogi mesurau i gynyddu teithio llesol i'r ysgol ac o'r ysgol i gyfleusterau cymunedol lleol.

Mae egwyddorion "Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015" y cyfeiriwyd atynt yn yr ymateb i'r ymgynghoriad wedi cael eu hystyried trwy ymarfer arfarnu. Mae'r ddogfen hon i'w chael ar dudalen we'r ymgynghoriad ar Ddarpariaeth Gynradd yn y Bont-faen:

www.valeofglamorgan.gov.uk/cowbridgeprimaryprovision

3.3 Byddai capasiti ychwanegol yn lleihau'r cyfleusterau a'r lle i ddisgyblion ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen.

Cododd ymatebwyr bryderon ynghylch y posibilrwydd o golli mynediad at gyfleusterau pe bai capasiti'r ysgol yn cael ei gynyddu, yn enwedig cyfleusterau chwaraeon ar gyfer y disgyblion uwchradd. Roedd ymatebion yn nodi hefyd y byddai codi'r adeilad newydd yn tarfu ar ddisgyblion presennol Ysgol Gyfun y Bont-faen.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Byddai'r adeilad a'r safle newydd yn cydymffurfio â safonau Bwletin Adeiladu 99 sy'n cynnwys gofynion ar gyfer lle a darparu cyfleusterau. Byddai'r holl opsiynau ar gyfer lleoli adeilad yr ysgol gynradd yn Ysgol Gyfun y Bont-faen yn cael eu hystyried ac yn amodol ar gais cynllunio llawn. Fel a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae dysgu yn yr awyr agored yn ystyriaeth bwysig yn nyluniad Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif a byddai darpariaeth o fewn y safle newydd yn cynnwys ardaloedd natur a chyfleusterau chwaraeon.

O ran yr ardaloedd chwaraeon, pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen byddai cyfle i wella ansawdd y ddarpariaeth ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen. Mae gan Ysgol Gyfun y Bont-faen eisoes gae pêl-droed, man chwarae amldefnydd (MUGA) a chaeau glaswellt ar gyfer chwaraeon. Byddai'r cyfnodau cynradd ac uwchradd yn gallu cael budd o rannu cyfleusterau chwaraeon i'w defnyddio mewn gwersi Add. Gorff. wedi'u hamserlennu. Byddai'r cynradd hefyd yn gallu defnyddio ardaloedd chwarae dan orchudd â llawr caled gyda mynediad uniongyrchol o'u hadeilad, a byddai ffens ddiogel o amgylch y rhain i'w gwahanu oddi wrth weddill y safle.

Byddai'r tîm dylunio'n cydweithio'n agos gyda'r ysgol i sicrhau bod y sgiliau seiliedig-ar-natur yn gallu cael eu datblygu trwy ddarpariaeth awyr agored wedi'i theilwra. Er enghraifft, mae potensial i'r clystyrau o goes ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen gael eu gwella a'u defnyddio gan y cynradd ar gyfer sesiynau ysgol goedwig.

Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai rhywogaethau coed a llystyfiant addas i wella safle Ysgol Gyfun y Bont-faen yn cael eu hadnabod trwy arolygon ecoleg helaeth. Yn bwysig, mae coridorau gwyrdd yn rhedeg ar hyd y safle sy'n rhagflaenydd ar gyfer presenoldeb bywyd gwyllt; mae hyn yn awgrymu bod y safle'n addas ar gyfer cyfleoedd dysgu trwy arolygon bywyd gwyllt, megis helfeydd pryfed a gwylio adar. Mae ysgolion cynradd a gyflawnwyd o fewn Band A Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif wedi creu ardaloedd natur yn flaenorol hefyd gyda phyllau, gwestai pryfed a rhaglenni plannu planhigion fel rhan o'u manau dysgu awyr agored. Mae gan Ysgol Gyfun y Bont-faen bwll ar y safle'n barod a gerddi a ddefnyddir gan ddisgyblion. Mae'r ardd yn darparu cyfle lle gallai disgyblion, dan oruchwyliaeth, gydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng y cyfnodau cynradd ac uwchradd.

Tîm Ysgolion 21^{ain} Ganrif y Cyngor fyddai'n rheoli'r gwaith o godi'r adeilad ysgol newydd. Mae'r mwyafrif o gynlluniau Band B y Cyngor ar safleoedd byw a byddai'r Tîm yn cydweithio'n agos gyda'r ysgol a'r contractwr i sicrhau bod y gwaith adeiladu'n tarfu gyn lleied â phosibl. Byddai hyn yn cynnwys amseroedd danfon cyfyngedig a sianeli cyfathrebu agored i leihau sŵn. Byddai hyn hefyd yn rhan o'r broses dendro a byddai contractwyr yn cael eu hasesu ar sail eu cynlluniau logisteg. Ceir manteision addysgol posibl i ddisgyblion yn ystod y cam adeiladu gan y byddai contractwyr a benodir yn cynnal ymweliadau â'r safle a gweithdai gyda disgyblion. Er enghraifft, ar brosiect blaenorol cynhaliwyd gwrs Saesneg ar y safle ac fe ysgrifennodd disgyblion gerddi am eu profiadau. Byddai gweithdai addas ar gyfer cyfnodau allweddol perthnasol yn cael eu cynnal gyda'r cyfnodau cynradd ac uwchradd. Hefyd, byddai'r prosiect yn cyfranogi yn y rhaglen llysgenhadon adeiladu, sy'n galluogi disgyblion i gael hyder a sgiliau trwy ddysgu mwy am adeiladu a rhoi diweddariadau i'w cyfoedion am y cynnydd ar y safle.

3.4 Mae safle Ysgol Gyfun y Bont-faen ar orlifdir

Ni ddylid datblygu ymhellach ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen gan ei fod ar orlifdir.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Byddai'r holl opsiynau o ran safle Ysgol Gyfun y Bont-faen yn cael eu hystyried ac yn amodol ar gais cynllunio llawn; byddai hyn yn cynnwys astudiaethau dichonoldeb o'r risg o lifogydd yn awr ac yn y dyfodol.

Byddai'n rhaid i'r dyluniad ateb gofynion draenio cynaliadwy sy'n golygu dyluniadau helaeth ar gyfer rheoli dŵr wyneb; h.y. rhaid i gyfraddau llif dŵr ateb gofynion penodol a chael eu cyflawni trwy ddatrysiadau naturiol megis pantiau a gerddi glaw. Byddai'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol cael cymeradwyaeth Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy cyn dechrau adeiladu.

Byddai'r dyluniad ar gyfer yr adeilad ysgol newydd yn amodol ar ganiatâd cynllunio hefyd. Byddid yn ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'r broses hon.

3.5 Dylid defnyddio safle Fferm y Darren yn lle hynny

Awgrymodd ymatebwyr y dylid defnyddio'r safle o fewn datblygiad tai Fferm y Darren yn lle safle Ysgol Gyfun y Bont-faen. Awgrymodd ymatebion hefyd y gellid cwblhau ehangiad addysg cyfrwng Cymraeg ar safle Fferm y Darren yn gyntaf ac

yna adleoli Ysgol Gynradd y Bont-faen dros dro i adeiladau presennol Ysgol Iolo Morganwg tra bo adeilad newydd yn cael ei godi ar safle presennol Ysgol Gynradd y Bont-faen.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Mae'r safle i'r gogledd orllewin o'r Bont-faen (y cyfeirir yn eang ato fel Fferm y Darren) wedi'i ddyrannu o fewn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd gan y Cyngor (2011-2026) ar gyfer 475 o anheddau. Mae gan y safle ganiatâd cynllunio amlinellol (cyfeirnod 2014/01505/OUT) a chaniatâd materion a gadwyd yn ôl (cyfeirnodau 2017/00841/RES a 2018/00240/RES) ac mae gwaith adeiladu'n digwydd ar y safle ar hyn o bryd.

Nid yw'r safle arfaethedig yn Fferm y Darren yn eiddo i'r Cyngor ar hyn o bryd. Mae'r cytundeb A106 gyda Taylor Wimpey yn datgan y byddai'r safle'n cael ei drosglwyddo pan fyddai pobl yn byw mewn 150 o anheddau.

Er mwyn gwneud lle i'r cynnydd a ragamcanir yn y disgyblion sy'n deillio o'r datblygiad, mae angen i'r ddarpariaeth gynradd yn y Bont-faen gael ei chynyddu gan ystyried y canlynol;

- Aethpwyd i'r afael â'r galw am addysg enwadol trwy gymeradwyo'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant o fis Medi 2021.
- Ceir digon o gapasiti i ateb y galw cychwynnol am addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Iolo Morganwg, er y bydd angen ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol i wneud lle ar gyfer y galw a ragwelir yn y dyfodol yn unol â pholisïau lleol a chenedlaethol.
- Mae'r ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg eisoes yn llawn a bydd angen ei hehangu ar y cyfle cynharaf er mwyn ateb y galw yn y dyfodol.

Er mwyn gwneud lle ar gyfer y galw a ragwelir, fe gymeradwyodd y Cabinet ddull graddol o gynyddu'r ddarpariaeth gynradd yn y Bont-faen gyda'r ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn cael ei hehangu fel rhan o gam un a'r ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn cael ei hehangu fel rhan o gam dau.

Cafodd safle Ysgol Gyfun y Bont-faen ei adnabod fel y safle a ffefrir ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a chafodd safle Fferm y Darren ei adnabod fel y safle a ffefrir ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

Gan mai ysgol cyfrwng Saesneg yw Ysgol Gyfun y Bont-faen, a bod y tir ar gael ar unwaith, barnwyd fod y safle'n addas i gyflawni'r ehangiad cyfrwng Saesneg fel rhan o gam un.

Byddai'r tir yn Fferm y Darren yn gweddu i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gan y byddai mynediad ar gyfer coetsis/bysiau mini'n cael ei wella gyda mynediad gwell oddi ar yr A48. Byddai'r ysgol newydd hefyd o fewn ystâd newydd a allai hwyluso galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg.

O ran ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn gyntaf, ni fyddai hyn yn gyson ac amcanestyniadau disgyblion sy'n dynodi bod angen capasiti cynradd cyfrwng Saesneg ar unwaith. Ni ellid ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn Fferm y Darren

nes bod y tir Adran 106 yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor. Byddai'r tir yn cymryd oddeutu 18 mis i'w gwblhau, gyda 18 mis arall i godi'r adeilad newydd ar safle Ysgol Gynradd y Bont-faen. Byddai hyn yn golygu na fyddai'r capasiti mwy'n cael ei gyflawni tan fis Ionawr 2025 ar y cynharaf.

3.6 Dylid defnyddio safle arall yn y Bont-faen yn lle hynny

Roedd ymatebion yn awgrymu y dylid codi ysgol gynradd ar safle arall yn y Bont-faen. Enghreifftiau a ddarparwyd yw; cae'r heddlu, y maes criced, hen safle'r farchnad, a hen adeilad y 6^{ed} dosbarth. Roedd yr ymatebion yn amrywio wrth ystyried ai adeilad a safle newydd ar gyfer ysgol gynradd newydd ddylai hyn fod ynteu a ddylid trosglwyddo Ysgol Gynradd y Bont-faen, yn ei chyfanrwydd neu fel safleoedd babanod/plant iau ar wahân.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Wrth ddatblygu cynnig, bydd y Cyngor yn ystyried ystod o safleoedd a fyddai ar gael. Yn y lle cyntaf, bydd y Cyngor yn ystyried safleoedd addysg presennol er mwyn sicrhau ystâd addysg effeithlon. Os nad oes safleoedd addysg presennol sy'n addas ar gyfer y cynnig, yna bydd y Cyngor yn ystyried safleoedd eraill sy'n eiddo i'r Cyngor. Os nad oes safleoedd addas ar gael o blith safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor, yna bydd y Cyngor yn ystyried opsiynau i gaffael tir ychwanegol.

Wrth ddatblygu'r cynnig hwn, fe wnaeth y Cyngor ystyried safleoedd addysg, gan gynnwys safle presennol Ysgol Gynradd y Bont-faen, safle presennol Ysgol Gyfun y Bont-faen a'r safle addysg yn y cynnig a fyddai'n cael ei ddarparu fel rhan o'r cytundeb A106 ar gyfer y datblygiad yn Fferm y Darren.

Cynhaliodd y Cyngor asesiad dichonoldeb i bennu a oedd yn bosibl ehangu Ysgol Gynradd y Bont-faen ar ei safle presennol. Diystyriwyd hyn oherwydd materion topograffigol gyda'r safle presennol, yr effaith y byddai'r nifer uwch yn ei chael ar y seilwaith lleol a'r mynediad cyfyngedig ar gyfer adeiladu a fyddai'n arwain at gostau sylweddol uwch i adeiladu'r ysgol. Nid yw'r safle ysgol arfaethedig ar ddatblygiad tai Fferm y Darren i fod i drosglwyddo i'r Cyngor nes bydd pobl yn byw mewn 150 o anheddau a barnwyd ei fod yn fwy addas i gefnogi ehangiad addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol oherwydd ei agosrwydd at yr A48. Felly, barnwyd mai Ysgol Gyfun y Bont-faen oedd y safle mwyaf priodol i ehangu addysg cynradd cyfrwng Saesneg.

Er nad oes astudiaethau dichonoldeb manwl wedi cael eu cynnal ar gyfer unrhyw un o'r lleoliadau eraill yn y Bont-faen, nid yw'r un o'r safleoedd heb faterion. Mae Cae'r Heddlu a'r Maes Criced yng nghanol Tref y Bont-faen a byddai mynediad yn anodd iawn. Byddai adeiladu ysgol gynradd yn unrhyw un o'r lleoliadau hyn yn cael effaith arwyddocaol ar y seilwaith lleol. Byddai angen mesurau ychwanegol i liniaru'r effeithiau hyn a fyddai'n cynyddu cost adeiladu'n sylweddol. Byddai adeiladu ar y safleoedd eraill hyn hefyd yn effeithio ar y manau agored cyhoeddus a'r cyfleusterau hamdden sydd ar gael yn y Bont-faen.

O ran yr hen adeilad 6^{ed} dosbarth, mae hwn wedi cael ei ddyrannu ar gyfer tai fel rhan o'r CDLI a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Mae hen safle'r Farchnad Wartheg wedi cael ei ddyrannu ar gyfer defnyddiau eraill, ac mae'r cynlluniau ar hyn o bryd yn rhai ar gyfer cyfleusterau parcio a digwyddiadau cymunedol.

Y pryder allweddol gydag unrhyw un o'r safleoedd eraill fyddai'r oedi na fyddai modd ei osgoi cyn rhoi'r capasiti mwy ar waith. Byddai hefyd yn costio mwy i gaffael unrhyw safle nad yw'r Cyngor yn berchen arno.

Mater 4 – Ymatebion yn erbyn blaenoriaethu ysgol newydd

4.1 Dylai'r Cyngor fuddsoddi yn Ysgol Gynradd y Bont-faen

Awgrymodd ymatebwyr y dylid buddsoddi cyllid yn Ysgol Gynradd y Bont-faen yn hytrach nag ysgol newydd. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion yn amrywio o ran beth ddylai hyn ei olygu; awgrymodd rhai y dylid atgyweirio'r adeilad presennol ac awgrymodd eraill y dylid darparu adeilad newydd ar safle Ysgol Gynradd y Bont-faen gyda'r capasiti ychwanegol y mae ei angen. Yn yr ail awgrym, byddai adeilad dros dro'n cael ei ddefnyddio tra bo'r adeilad ysgol newydd yn cael ei godi.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Mae'r Cyngor wedi archwilio ystod o opsiynau i ateb y galw uwch o'r datblygiadau tai, gan gynnwys asesiad dichonoldeb ar gynyddu capasiti Ysgol Gynradd y Bont-faen ar ei safle presennol.

Canfu'r astudiaeth ddichonoldeb na fyddai'n bosibl codi adeilad ysgol gynradd newydd â 420 o leoedd (capasiti presennol Ysgol Gynradd y Bont-faen a 210 o leoedd ychwanegol i ateb y galw cynyddol) ar y safle presennol tra bo'r ysgol bresennol yn dal i fod yn weithredol. Y prif reswm dros hyn yw'r mynediad cyfyngedig ar gyfer cerbydau adeiladu a thopograffeg y safle. Byddai adleoli'r disgyblion dros dro i'w gwneud yn bosibl dymchwel ac adeiladu'n gostus ac ni ellid talu'r costau hynny o fewn y gyllideb a ddyrannwyd. Byddai hyn hefyd yn lleihau maint ac ansawdd y lle awyr agored sydd ar gael i'r disgyblion yn sylweddol. Mae'r trac rhedeg a'r cae wedi cael eu henwi gan yr ymatebwyr fel adnoddau gwerthfawr i ddisgyblion cynradd, ond byddai'r rhain yn cael eu peryglu gan adeilad ag ôl troed mwy ac ni fyddent ar gael yn ystod y cyfnod adeiladu.

Cafodd safle presennol Ysgol Gyfun y Bont-faen ei adnabod fel y safle a ffefrir ar gyfer cyflawni'r capasiti cyfrwng Saesneg uwch trwy sefydlu ysgol pob oed. Fe ymgynghorodd y Cyngor yn flaenrol ynghylch cynnig i ddarparu 420 o leoedd cynradd ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen trwy ddirwyn Ysgol Gynradd y Bont-faen i ben a throsglwyddo'r holl staff a disgyblion.

Cyflwynwyd nifer o bryderon fel rhan o'r ymgynghoriad, felly fe wnaeth y Cyngor ail-archwilio'r holl dulliau a oedd ar gael i gyflawni'r capasiti gofynnol i ateb y galw yn y dyfodol. Byddai'r cynnig hwn yn golygu bod 210 o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg ar gael ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen yn ychwanegol at y 210 o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg sydd ar gael yn Ysgol Gynradd y Bont-faen.

Un o fanteision y cynnig blaenrol oedd y byddai wedi mynd i'r afael â chyflwr adeiladau presennol Ysgol Gynradd y Bont-faen sydd mewn cyflwr gwael (yn ôl yr arolwg diweddaraf o gyflwr adeiladau a gynhaliwyd yn 2019). Ni fyddai'r cynnig hwn yn mynd i'r afael â chyflwr adeiladau presennol Ysgol Gynradd y Bont-faen gan y byddai'r ysgol yn aros ar ei safle presennol gyda'i capasiti presennol. Mae rhai

ymatebwyr yn nodi eu bod bellach yn fwy o blaid y cynnig blaenorol gan y byddai wedi arwain at adeilad newydd i Ysgol Gynradd y Bont-faen.

Byddai angen i fuddsoddiad yn Ysgol Gynradd y Bont-faen gael ei adolygu yng nghyd-destun rhaglen adnewyddu asedau barhaus y Cyngor, y mae £600k yn cael ei gadw'n ôl ar ei chyfer bob blwyddyn i gynnal a chadw adeiladau ysgolion (ceir rhagor o fanylion isod). Mae cynlluniau'n cael eu hadolygu a'u blaenoriaethu'n flynyddol. Dylid nodi bod gan y mwyafrif llethol o ysgolion ym Mro Morgannwg ôl-groniad o waith cynnal a chadw. Ar hyn o bryd mae 7 ysgol gynradd yn ardal Bro Morgannwg sydd ag ôl-groniad mwy o waith cynnal a chadw o'i gymharu ag Ysgol Gynradd y Bont-faen. Mae Rhaglen Ysgolion 21^{ain} Ganrif y Cyngor yn fuddsoddiad mawr yn yr ystâd addysg ledled Bro Morgannwg sy'n lleihau'r ddibyniaeth ar y rhaglen adnewyddu asedau barhaus.

Mae'n werth nodi, pan fo'r Cyngor yn datblygu cynnig i'w gynnwys fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, bod cynlluniau unigol yn cael eu hasesu yn erbyn amcanion buddsoddi'r Cyngor ac amcanion rhaglen Llywodraeth Cymru. Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu digon o leoedd mewn ysgolion ac felly, mae ateb y galw rhagamcanol yn un o flaenoriaethau allweddol Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Lle y bo'n bosibl, bydd y Cyngor hefyd yn amcanu at fynd i'r afael â chyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol presennol, fel yr oedd y cynnig gwreiddiol yn amcanu at ei wneud. Nid oes unrhyw gynlluniau wedi'u cynnwys fel rhan o Raglen Ysgolion 21^{ain} Ganrif y Cyngor sy'n mynd i'r afael â chyflwr ac addasrwydd adeiladau yn unig. Ymdrinnir â'r materion hyn trwy'r rhaglen gyfalaf adnewyddu asedau fel rheol.

Mae hefyd yn werth nodi bod yr adeilad newydd arfaethedig yn cael ei ariannu'n bennaf trwy gyfraniadau Adran 106 a geir o ddatblygiadau tai cyfagos. Ariennir £4.1 miliwn o gyfraniadau A106 y disgwylir eu derbyn o ddatblygiad Fferm y Darren. Mae'r cyllid hwn wedi cael ei warantu'n benodol i gynyddu nifer y lleoedd ysgol ac ni fyddai modd ei ddefnyddio i ariannu atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw i adeilad presennol.

Fel rhan o'r rhaglen gyfalaf, mae'r Cyngor yn dyrannu £600,000 yn flynyddol i adnewyddu asedau ar ffurf adeiladau ysgolion; caiff hwn ei rannu rhwng ysgolion yn ôl blaenoriaeth y gwaith y mae ei angen. Dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf dyrannwyd £130,363.70 i Ysgol Gynradd y Bont-faen ar gyfer gwaith cyfalaf i adnewyddu'r to gwastad ac uwchraddio'r system ddraenio, goleuadau a gwresogi (£1,363.70 yn 2018/19 a £129,000 yn 2019/20). Mae hyn yn ychwanegol at waith a wnaed fel rhan o hawliad yswiriant am ddifrod llifogydd i'r llawr.

Darperir cyllideb ddirprwyedig ar gyfer yr holl ysgolion fel rhan o'r fformwla cyllid ysgolion ar gyfer atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw. Yn ôl gwybodaeth a ddelir gan y Tîm Cyllid Ysgolion, mae dyraniad Ysgol Gynradd y Bont-faen a'i gwariant ar atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw fel a ganlyn:

Blwyddyn Ariannol	Cyllid a ddirprwywyd i Ysgol Gynradd y Bont-faen	Gwariant	Amrywiant	%
2017/18	£16,047	£6,573	£9,474	41%

2018/19	£15,884	£5,832	£10,052	37%
2019/20	£16,365	£5,913	£10,452	36%
Cyfanswm	£48,296	£18,318	£29,978	37%

Mae Ysgol Gynradd y Bont-faen wedi gwario £18,318 dros y cyfnod o dair blynedd ar atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw a oedd yn 37% o gyfanswm y cyllid ar gyfer atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw a ddyrannwyd fel rhan o'r fformwla cyllid. Mae'r Cyngor yn nodi nad yw hyn yn anarferol gan bod ysgolion yn blaenoriaethu cyllid at ddibenion addysg. Fodd bynnag, mae'n amlygu sut y mae gwaith cynnal a chadw'n ôl-gronni ar draws yr holl ysgolion dros amser.

Er y cydnabyddir bod yr adeiladau presennol yn Ysgol Gynradd y Bont-faen mewn cyflwr gwael, mae'r ysgol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol a chaiff hyn ei fonitro'n rheolaidd. Mae'r corff llywodraethu a'r pennaeth wedi creu amgylcheddau dysgu croesawus sy'n cefnogi'r dysgu a'r addysgu â manau neilltuo addas ar gyfer ymyriadau a lles disgyblion.

Holodd rhai ymatebwyr hefyd a fyddai Ysgol Gynradd y Bont-faen yn ehangu i mewn i adeiladau presennol lolo Morganwg yn dilyn cam ii y prosiect, pan fyddai lolo Morganwg yn trosglwyddo i safle Fferm y Darren. Er nad oes cynnig ffurfiol wedi cael ei ddatblygu ar gyfer cam ii, byddid yn ymdrin â'r galw ychwanegol am addysg gynradd cyfrwng Saesneg fel rhan o gam i. Felly, mae'n annhebygol y byddai ar Ysgol Gynradd y Bont-faen angen capasiti ychwanegol yn dilyn adleoli lolo Morganwg.

4.2 Dylid defnyddio Ysgol Gynradd Llancarfan

Awgrymodd un ymateb y dylid defnyddio'r capasiti sbâr yn Ysgol Gynradd Llancarfan yn lle agor ysgol gynradd Saesneg newydd.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Diben y cynnig yw cynyddu capasiti addysg gynradd cyfrwng Saesneg yn y Bont-faen i ateb y galw uwch am addysg gynradd o ganlyniad i ddatblygiadau tai diweddar ac arfaethedig. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ysgolion yn gwasanaethu eu cymunedau lleol a'u bod yn adlewyrchu'r galw. Er bod gan Ysgol Gynradd Llancarfan gapasiti sbâr o 55 o leoedd (44%) ym mis Medi 2019, nid oedd yn cael ei hystyried yn opsiwn dichonadwy oherwydd ei lleoliad a materion ehangach o ran capasiti ac addasrwydd.

Yn ei lleoliad presennol, mae Ysgol Gynradd Llancarfan rhwng 8 ac 11 milltir i ffwrdd mewn car o ddatblygiad tai Fferm y Darren, tra bo Ysgol Gyfun y Bont-faen 1.8 milltir i ffwrdd o ddatblygiad tai Fferm y Darren. Mae Ysgol Gynradd Llancarfan hefyd yn destun cynnig ar wahân i'w symud i adeilad ysgol newydd mewn datblygiad tai yn y Rhws. Byddai ei chapasiti'n cynyddu o 126 i 210 o leoedd a'r ystod oedran yn cael ei hestyn i gynnwys 48 o leoedd meithrin rhan-amser i ateb y galw cynyddol ar gyfer disgyblion yn yr ardal honno. Byddai hyn yn golygu y byddai ei lleoliad newydd rhwng 11 a 13 milltir i ffwrdd mewn car o ddatblygiad tai Fferm y Darren. Felly, byddai hyn yn achosi cost ac adnoddau ychwanegol i'r Cyngor er mwyn cludo disgyblion o ddatblygiad tai Fferm y Darren i Ysgol Gynradd Llancarfan. Byddai hyn hefyd yn golygu na fyddai'r capasiti yn Ysgol Gynradd

Llancarfan yn ddigon i ateb y galw cynyddol ar gyfer disgyblion o ddatblygiadau tai newydd y Rhws a Fferm y Darren.

4.3 Mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ysgolion crefyddol

Roedd un ymateb yn awgrymu bod y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i leoedd mewn ysgolion crefyddol.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Byddai'r cynnig hwn yn arwain at 210 o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg anenwadol ychwanegol. Aethpwyd i'r afael â'r galw am addysg enwadol fel rhan o gynnig y Cyngor i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant.

O ran derbyniadau o addysg gynradd i addysg uwchradd, yn ddiweddar fe dynnodd y Cyngor ysgolion sy'n bwydo o'r meini prawf gorallw. Mae hyn yn golygu nad yw ysgol gynradd disgybl yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses o ymgeisio am leoedd uwchradd yn Ysgol Gyfun y Bont-faen.

4.4 Nid yw'r cynnig yn rhoi gwerth am arian

Nodwyd nad yw'r cynnig yn ddefnydd effeithiol o gyllid cyhoeddus cyfyngedig o ystyried y costau cyfalaf uchel ar gyfer 30 o ddisgyblion i ddechrau.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Mae Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor yn fuddsoddiad strategol hirdymor. Byddai'r cynnig yn golygu buddsoddiad o £5m i sefydlu adeilad ysgol gynradd ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen i wneud lle i 210 o ddisgyblion cynradd a 48 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Mae'r gwariant hwn yn gyson â chynlluniau eraill ar gyfer ysgolion cynradd a gyflawnwyd fel rhan o'r rhaglen.

Byddai'r cyfnod cynradd yn agos yn raddol gyda 30 o leoedd derbyn a 48 o leoedd meithrin rhan-amser ar gael ar gyfer mis Medi 2022. Byddai nifer y disgyblion ar y gofrestr yn tyfu bob blwyddyn wrth i'r disgyblion hyn gamu ymlaen trwy'r cyfnod cynradd. Mae'r model hwn yn sicrhau bod y cyfnod cynradd newydd yn cael ei agor mewn modd dichonadwy ac nad yw'n effeithio ar ysgolion cynradd lleol oherwydd trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Mabwysiadwyd y dull hwn yn ddiweddar ar gyfer sefydlu Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn Llanilltud Fawr. Byddai'r dull graddol hefyd yn sicrhau bod capasiti'n cynyddu yn unol â'r galw a ragamcanir i ddiwallu anghenion y gymuned leol.

Er na fyddai buddsoddiad o £5m yn cael ei ystyried yn werth am arian yn y flwyddyn gyntaf, mae'r Cyngor yn asesu buddsoddiadau ar draws oes 60 mlynedd yr adeilad. Byddai'r cynnig yn rhoi digon o gapasiti i'r Cyngor allu ateb y galw cynyddol am addysg gynradd yn ardal y Bont-faen.

Mae hefyd yn werth nodi bod £4.1m o'r buddsoddiad o £5m trwy gyfraniadau Adran 106 a geir o Ddatblygiad Fferm y Darren. Mae'r cyfraniadau hyn dod i law yn benodol i ddarparu lleoedd ysgol ychwanegol o ganlyniad i'r datblygiad.

4.5 Nid yw'r cynnig yn gyson ag amcanion Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Roedd ymatebion yn nodi nad yw'r cynnig yn gyson ag amcanion Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif gan nad yw'r cynnig yn mynd i'r afael â chyflwr ac addasrwydd adeiladau yn Ysgol Gynradd y Bont-faen.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Wrth ddatblygu Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor, mae cynlluniau unigol yn cael eu hasesu yn erbyn amcanion buddsoddi'r Cyngor ac amcanion rhaglen Llywodraeth Cymru. Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu digon o leoedd mewn ysgolion ac felly, mae ateb y galw rhagamcanol yn un o flaenoriaethau allweddol Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Lle y bo'n bosibl, bydd y Cyngor hefyd yn amcanu at fynd i'r afael â chyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol presennol, fel yr oedd y cynnig gwreiddiol yn amcanu at ei wneud. Nid oes unrhyw gynlluniau wedi'u cynnwys fel rhan o Raglen Ysgolion 21^{ain} Ganrif y Cyngor sy'n mynd i'r afael â chyflwr ac addasrwydd adeiladau yn unig.

Un o amcanion allweddol Llywodraeth Cymru yn Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21^{ain} Ganrif yw 'darparu seilwaith addysgol effeithlon ac effeithiol a fydd yn ateb y galw am leoedd yn awr ac yn y dyfodol erbyn 2024'. Fel rhan o'r amcan hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi adnabod ystod o dargedau mewn perthynas â chyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol presennol, gan gynnwys:

- Bod costau'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni ar gyfer yr ysgolion a cholegau a ddewiswyd ar gyfer Band B yn cael eu gostwng o leiaf 50% (yn seiliedig ar y dybiaeth mai asedau yn lle asedau presennol fydd 50% o'r brosiectau yn y Rhaglen).
- Dim adeiladau categori D yn yr ystâd.
- Bod 25% o'r adeiladau Categori C yn cael eu gwella i Gategori A neu B

Mae'r Cyngor wedi asesu'r rhaglen Band B ar y cyfan ar sail cyrraedd y targedau hyn:

- Mae 63% o brosiectau Band B y Cyngor yn arwain at godi adeiladau newydd yn lle adeiladau presennol sy'n cael gwared ar waith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni. Mae gan y Cyngor hefyd brosiect ehangu/adnewyddu ychwanegol a fydd yn lleihau gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni yn sylweddol. Felly, byddai rhaglen Band B y Cyngor yn arwain at ostyngiad o 63%-69% mewn gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni.
- Nid oedd gan y Cyngor unrhyw adeiladau Categori D cyn dechrau Band B. Yr adeilad ysgol a fyddai wedi bod agosaf at gategori D yw adeilad Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, y mae adeilad newydd yn cael ei godi yn ei le fel rhan o Fand B.
- Ar ddechrau rhaglen Band B ym mis Ebrill 2019, roedd gan y Cyngor 14 o adeiladau ysgol categori C. Yn seiliedig ar y cynlluniau sydd wedi'u cynnwys fel rhan o raglen Band B y Cyngor, byddai hyn yn lleihau i 7 adeilad erbyn mis Mawrth 2024, gan felly leihau'r ddibyniaeth ar raglen gyfalaf adnewyddu asedau'r Cyngor.

Fel a nodir uchod, mae'r Cyngor naill ai'n cyrraedd neu'n mynd y tu hwnt i dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol presennol.

Mater 5 – Ymatebion yn erbyn y trefniadau ymgynghori

5.1 Pryderon ynghylch rhedeg yr ymgynghoriad yn ystod pandemig Covid-19

Roedd un ymateb yn codi pryderon ynghylch mynediad cyfyngedig at wybodaeth a chyfarfodydd cyhoeddus yn ystod yr ymgynghoriad o ganlyniad i Covid-19

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Roedd y prosesau ymgynghori'n dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, gan gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Roedd y prosesau ymgynghori'n rhoi'r cyfle i ymgynghoreion penodedig ddysgu am y cynnig ac i'r Cyngor glywed barn pawb sydd â buddiant er mwyn iddynt allu cael eu cymryd i ystyriaeth cyn bod unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud.

Cynhaliwyd ymgynghoriadau ffurfiol trwy ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb a ddosbarthwyd yn electronig i ymgynghoreion penodedig ac a gyhoeddwyd ar wefan Cyngor Bro Morgannwg ar 16 Mawrth 2020. Cafodd ymgynghoreion ddolen mewn neges e-bost hefyd a oedd yn mynd â hwy at wefan Cyngor Bro Morgannwg. Roedd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar gais hefyd.

Rhoddodd Ysgol Gyfun y Bont-faen wybod i'r Cyngor y byddai'n atal yr holl addysg ffurfiol o 23 Mawrth 2020 oherwydd y goblygiadau a oedd yn gysylltiedig â'r achos o feirws COVID-19 a oedd yn mynd rhagddo ar y pryd. Er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn unol â'r gofynion yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018, rhoddwyd gwybod i'r ymgynghoreion bod y dyddiad terfyn arfaethedig wedi cael ei ddileu ac y byddai dyddiad terfyn hwyrach yn cael ei bennu. Roedd ymgynghoreion yn dal i allu gweld dogfennaeth yr ymgynghoriad a chyflwyno adborth gan ddefnyddio ffurflen adborth neu drwy gwblhau a dychwelyd ffurflen ymateb.

Ar 7 Medi 2020, rhoddodd y Cyngor wybod i'r ymgynghoreion bod dyddiad terfyn wedi cael ei bennu ar gyfer yr ymgynghoriad. Cafodd yr ymgynghoreion o leiaf 42 diwrnod o rybudd ynghylch y dyddiad terfyn a bennwyd, sef 18 Hydref 2020. Cafodd y ddogfen ymgynghori a'r tudalennau gwe eu diweddarau i adlewyrchu'r dyddiad terfyn diwygiedig a chafodd y cwestiynau cyffredin eu diweddarau.

Fe'i dygwyd i sylw'r Cyngor na chafodd rhai o rieni/gofalwyr Ysgol Gyfun y Bont-faen y neges e-bost a anfonwyd gan Ysgol Gyfun y Bont-faen ar 9 Medi i hysbysu bod y dyddiad terfyn newydd wedi cael ei bennu. Felly, i sicrhau bod gan yr holl ymgynghoreion ddigon o amser i ystyried y cynnig yn llawn a chyflwyno'u hadborth, rhoddodd y Cyngor estyniad pellach ar y cyfnod ymgynghori tan 23 Tachwedd 2020.

Yn sgîl goblygiadau parhaus y Coronafeirws cafodd sesiynau galw heibio ar gyfer rhieni a'r gymuned eu canslo er mwyn cyfyngu ar y rhyngweithio rhwng staff, rhieni a'r gymuned ehangach. Fodd bynnag, cafodd sianeli cyfathrebu agored eu cynnal

trwy gydol yr ymgynghoriad dros y ffôn a thrwy'r e-bost. Cafodd y Cwestiynau Cyffredin eu diweddarau hefyd i adlewyrchu ymholiadau a godwyd trwy gydol y cyfnod ymgynghori. Fe ymatebodd swyddogion y Cyngor i nifer o ymholiadau drwy'r e-bost trwy gydol y cyfnod ymgynghori.

Cynhaliwyd sesiwn ymgysylltu gyda disgyblion Ysgol Gyfun y Bont-faen i sicrhau y byddai eu hadborth yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses. Cynhaliwyd y rhain yn annibynnol ar y Cyngor ac roeddent yn cydymffurfio â chanllawiau COVID-19 Llywodraeth Cymru.

Ar y cyfan, mae ymgynghoreion wedi cael mwy na 250 o ddiwrnodau i ystyried y cynnig yn llawn a darparu adborth, sydd ymhell y tu hwnt i'r gofynion lleiaf a nodir yn y Cod Trefniadau Ysgolion.

5.2 Pryderon bod yr ymgynghoriad hwn yn ffug-egsus dros gau neu symud Ysgol Gynradd y Bont-faen yn y dyfodol

Cododd ymatebwyr bryderon y byddai'r cynnig newydd hwn yn dal i olygu cau neu symud Ysgol Gynradd y Bont-faen.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Fel a nodir uchod, mae'r Cyngor yn ymgynghori ar gynnig diwygiedig i fynd i'r afael â phryderon a godwyd fel rhan o'r ymgynghoriad gwreiddiol.

Byddai'r cynnig diwygiedig yn arwain at 210 o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg ychwanegol a 48 o leoedd meithrin rhan-amser ychwanegol yn y Bont-faen. Diben y cynnig yw ateb y galw rhagamcanol am addysg gynradd o ganlyniad i ddatblygiadau tai diweddar ac arfaethedig.

Mae amcanestyniadau'n dynodi y byddai angen Ysgol Gynradd y Bont-faen a chyfnod cynradd Ysgol Gyfun y Bont-faen i ateb y galw am addysg gynradd cyfrwng Saesneg. Nid oes cynlluniau o gwbl i gau Ysgol Gynradd y Bont-faen nac unrhyw ysgol gynradd arall gyfagos.

Nid yw'r Cyngor yn rhagweld y byddai'r cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar ysgolion cynradd cyfagos. Yn wir, fe gymeradwyodd y Cyngor gynni yn ddiweddar i ehangu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant o 140 o leoedd i 210 o leoedd o fis Medi 2021 i ateb y galw uwch am addysg yr Eglwys yng Nghymru.

5.3 Dylid cynnwys rhagor o fanylion am ddyluniad arfaethedig yr adeilad yn yr ymgynghoriad

Roedd un ymatebydd o'r farn nad oedd modd gwneud penderfyniad i gefnogi'r cynnig heb wybodaeth gynllunio fanwl.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Mae'r Cyngor wedi dilyn gweithdrefnau ymgynghoriad addysgol a nodir gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Ystyri'r cynnig hwn dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae

Adran 2.3 yn cyfeirio at Newidiadau a Reoleiddir i ysgol, sy'n cynnwys cynyddu capasiti'r ysgol trwy ychwanegu o leiaf 200 o leoedd ac estyniad o flwyddyn neu fwy yn ystod oedran ysgol.

Nid yw cynlluniau dylunio manwl na'r adborth ar adeiladwaith adeilad newydd yn cael eu hystyried yn uniongyrchol fel rhan o'r cynnig addysg hwn dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Byddai'r adeilad a seilwaith cludiant cysylltiedig yn destun proses gynllunio lawn yn ddiweddarach pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.

Fodd bynnag, fe ddarparodd y Cyngor ffotograffau a dolenni i enghreifftiau o ysgolion cynradd a adeiladwyd ym Mand A Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn y ddogfen ymgynghori. Roedd y ddogfen hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y cyfleusterau arfaethedig a'r safle, trefniadau adeiladu, ac yn amlygu ystyriaethau o ran trafndiaeth leol a fydd yn cael eu harchwilio yn ystod yr asesiad trafndiaeth.

5.4 Ni chafodd y ddogfen ymgynghori ei chyhoeddi yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018

Roedd un ymateb yn nodi naill ai nad yw'r bobl y mae'n fwyaf tebygol yr effeithir arnynt gan y cynnig hwn mewn unrhyw leoliad addysg ffurfiol eto neu nad ydynt wedi cael eu geni eto.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Anfonwyd y ddogfen ymgynghori at ymgynghoreion penodedig a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Anfonwyd y ddogfen ymgynghori at y Tîm Partneriaeth Plant ac fe'i dosbarthwyd i ddarparwyr gofal plant y mae'n debygol yr effeithir arnynt gan y cynnig. Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor hefyd ac mae wedi cael ei hyrwyddo trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Fe gyhoeddodd y Cyngor ddatganiad i'r wasg hefyd i sicrhau bod y gymuned leol yn cael eu hysbysu ynghylch argaeledd y ddogfen ymgynghori. Mae'r Cyngor yn credu bod y ddogfen ymgynghori wedi cael ei chyhoeddi yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a bod yr holl ymgynghoreion wedi cael digon o gyfle i ystyried y cynnig yn llawn ac ymateb iddo.

Atodiad B – Crynodeb o sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig.

Mae'r adran hon yn darparu'r themâu allweddol a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol gan y rhai a oedd o blaid y cynnig. Mae'r canlynol yn cyflwyno trosolwg o'r ymatebion ac nid ydynt yn gynhwysfawr nac wedi'u bwriadu i fod yn gofnod air am air. Trefnwyd fod yr holl ymatebion ysgrifenedig ar gael i aelodau Cabinet y Cyngor.

Sylw 1

Byddai model ysgol pob oed o fudd ar gyfer addysgu a phrofiadau dysgu

Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai'r model pob oed a oedd yn cael ei gynnis o fudd i'r dysgu a'r addysgu. Un o'r enghreifftiau a roddwyd yw y byddai'n lleihau'r risg o ostyngiad mewn perfformiad academaidd rhwng y cyfnodau cynradd ac uwchradd gan bod yr ysgol yn gallu sicrhau lefelau rhifedd a llythrennedd digonol. Byddai cael addysg o un lleoliad hefyd yn darparu mwy o barhad ac yn ei gwneud yn bosibl meithrin perthynas rhwng disgyblion ac athrawon o adeg gynharach yn siwrnai addysgol y disgybl.

Byddai athrawon hefyd yn gallu dysgu o ystod eang o arbenigedd pynciol a byddai disgyblion yn cael budd o adnoddau dysgu ychwanegol; megis cyfleusterau TGCh a chwaraeon. Roedd rhai ymatebion yn nodi bod y canlyniadau "Rhagorol" diweddaraf gan Estyn ar gyfer Ysgol Gyfun y Bont-faen yn awgrymu y bydd yr ysgol yn gallu estyn yr arfer da hwn i'r cyfnod cynradd. Fe wnaeth ymatebion hefyd amlygu ymrwymiad Ysgol Gyfun y Bont-faen i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy adran a staff sydd wedi hen ennill eu plwyf.

Sylw 2

Byddai model ysgol pob oed o fudd i les disgyblion

Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai lles disgyblion yn cael ei gefnogi trwy'r trefniadau pontio arfaethedig trwy osgoi'r pryder sy'n gysylltiedig â sicrhau lle mewn ysgol gynradd a thrwy fod yn gyfarwydd â'r amgylchedd. Byddai'r disgyblion cynradd newydd yn cael eu cefnogi trwy bolisïau lles sefydledig, byddai eu llais yn gallu cael ei glywed trwy'r cyngor ysgol a byddent yn gallu cael eu mentora gan ddisgyblion hŷn. Byddai ganddynt hefyd fwy o fynediad at weithgareddau allgyrsiol, gyda hynny'n ategu eu datblygiad emosiynol a chymdeithasol. Amlygodd ymatebion fod Ysgol Gyfun y Bont-faen yn gwneud lles y disgybl yn ganolog i gyflawniad academaidd.

Sylw 3

Byddai model ysgol pob oed o fudd i drefniadau rheoli a chyfleoedd datblygiad proffesiynol

Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai'r uwch dîm rheoli profiadol a medrus yn Ysgol Gyfun y Bont-faen yn gallu goruchwylio'r ddarpariaeth orau ar gyfer plant oedran cynradd. Roedd ymatebion hefyd yn nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol gan y gallai athrawon rannu arbenigedd mewn darpariaeth gynradd a phynciau uwchradd arbenigol. Roedd ymatebion yn amlygu y byddai staff cynradd yn cael eu

cefnogi'n dda gan gydweithwyr a'r tîm arwain.

Sylw 4

Byddai model ysgol pob oed o fudd ar gyfer rheolaeth ariannol a rheoli adnoddau

Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai cyfleoedd ar gyfer arbedion ariannol ac arbedion o ran adnoddau trwy ddarbodion maint ac y byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl defnyddio cyllidebau cyfyngedig yn effeithlon.

Sylw 5

Byddai'r model ysgol pob oed o fudd i rieni â phlant yn y ddau gyfnod addysg

Roedd ymatebwyr yn nodi y byddai trefniadau cludiant yn haws i rieni â phlant yn y ddau gyfnod addysg gan mai dim ond i un safle y byddai angen iddynt fynd yn lle teithio i sawl safle ledled ardal y Bont-faen. Roedd ymatebion yn amlygu y byddai hyn hefyd yn lleihau straen dod o hyd i ofal cofleidiol addas. Roedd rhai ymatebion hefyd yn nodi y byddai rhieni'n dawel eu meddwl bod eu plant ar un safle diogel.

Sylw 6

Cefnogaeth i adeilad ysgol gynradd newydd

Roedd ymatebwyr o blaid adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion cynradd â chyfleusterau tra modern. Byddai'r adeilad newydd yn darparu ystafelloedd modern o faint addas a chyfleusterau eraill ar gyfer dysgu ac addysgu.

Sylw 7

Mae safle Ysgol Gyfun y Bont-faen yn ddewis addas ar gyfer adeilad ysgol gynradd newydd

Roedd ymatebwyr yn teimlo bod gan safle Ysgol Gyfun y Bont-faen ôl troed digon mawr ar gyfer adeilad ysgol gynradd ychwanegol ac y byddai ei osod ar y safle hwn yn helpu cysylltiadau trafnidiaeth lleol. Byddai rhannu'r safle'n darparu cyfleusterau ar gyfer y cyfnod cynradd na fyddai gan ddisgyblion fynediad atynt ar safle ysgol gynradd hunangynhwysol. Cafodd cyfleusterau cerddoriaeth a chwaraeon eu hamlygu fel manteision penodol.

Sylw 8

Yn gefnogol i'r cynnig i gynyddu lleoedd i ddisgyblion cynradd cyfrwng Saesneg yn ardal y Bont-faen

Nododd ymatebwyr fod ysgolion cyfrwng Saesneg eisoes yn llawn yn ardal y Bont-faen. Rhaid i rai rhieni ddewis rhwng mynd ar siwrneiau i fwy nag un ysgol neu symud eu plant hyn o'r ysgol y maent wedi ymgartrefu ynddi i ysgol â digon o leoedd i'r holl blant fynychu gyda'i gilydd. Nodwyd hefyd fod hyn yn gallu achosi i rai rhieni anfon eu plant i ysgolion ffydd pan mai eu hoff ddewis fyddai bod eu plant yn cael eu haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg anenwadol.

Sylw 9

Yn gefnogol i'r trefniadau gan y byddai hyn yn rhyddhau cyllid ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg mewn cam diweddarach

Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r dull graddol o ehangu darpariaeth gynradd yn y Bont-faen ac yn nodi y byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl sicrhau cyllid ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn cam diweddarach.

Sylw 10

Mae'r cynnig newydd yn ddewis gwell na'r cynnig blaenorol

Nododd rhai ymatebwyr bod yn well ganddynt y cynnig newydd hwn gan y byddai'n osgoi gwrthdaro posibl a allai ddeillio yn ystod proses uno. Byddai maint llai'r cyfnod cynradd (cynnig newydd 210 o leoedd, cynnig blaenorol 420 o leoedd) yn lleihau'r materion posibl a oedd yn gysylltiedig â thraffig a lle ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen. Roedd ymatebwyr hefyd yn teimlo bod y cynnig newydd hwn yn cynnig ffordd gost-effeithiol o ateb y galw uwch am leoedd cynradd yn y Bont-faen a'i fod yn rhoi mwy o ddewis o ddarpariaeth gynradd i rieni.

Atodiad C – Cwestiynau cyffredin

Pam sefydlu ysgol pob oed?

Fel a nodir uchod, y prif sbardun ar gyfer y cynnig hwn yw ateb galw uwch am addysg gynradd cyfrwng Saesneg yn y Bont-faen o ganlyniad i ddatblygiadau tai diweddar ac arfaethedig. Cafodd safle Ysgol Gyfun y Bont-faen ei adnabod fel y safle a ffeirir i gyflawni'r capasiti uwch. Fe wnaeth y Cyngor ystyried enghreifftiau eraill yn yr ardal lle mae mwy nag un cyfnod addysg yn rhannu un safle, megis Cymuned Ddysgu Llanilltud Fawr ac Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Mae'r model ysgol pob oed yn darparu cyfleoedd ychwanegol o ran mwy o gydweithio, gwell cyfleusterau, gwell trefniadau pontio a rheolaeth gyson ar y safle.

Beth yw graddfa amser fwriadedig y datblygiad? Y bwriad yw y byddai gwaith i adeiladu'r ysgol newydd yn dechrau erbyn mis Gorffennaf 2021 ac yn cael ei gwblhau erbyn mis Medi 2022.

A fyddai pennaeth newydd?

Byddai Pennaeth Ysgol Gyfun y Bont-faen yn dod yn bennaeth yr ysgol pob oed a byddai'n gyfrifol am yr holl gyfnodau addysg. Corff llywodraethu Ysgol Gyfun y Bont-faen fyddai'n gyfrifol am ddatblygu strwythur staffio ar gyfer yr ysgol. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i'r strwythur staffio'n amodol ar ymgynghori'n llawn â staff a'r undebau llafur perthnasol lle y bo angen.

Sut fyddai goblygiadau posibl ar gyfer cludiant yn cael eu hystyried fel rhan o'r cynnig hwn?

Tim Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor fyddai'n gyfrifol am y broses adeiladu. Byddai contractwr yn cael ei benodi a byddai asesiad trafndiaeth llawn yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ddylunio. Byddai unrhyw oblygiadau a gâi eu hadnabod yn cael eu hystyried yn nyluniad yr adeilad newydd. Byddai'r contractwr yn cyflwyno cais cynllunio llawn ar gyfer yr adeilad newydd.

Beth fyddai'r trefniadau derbyn ar gyfer yr ysgol pob oed 3-19 oed?

Cyngor Bro Morgannwg yw'r awdurdod derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol. 30 o ddisgyblion fyddai'r nifer derbyn ar gyfer ffrwd dderbyn Medi 2022. Byddai'r ysgol hefyd yn cynnig 48 o leoedd meithrin rhan-amser o fis Medi 2022. Ni fyddai disgyblion yn cael eu derbyn i grwpiau Blwyddyn 1-6 ar adeg agor yr ysgol. Byddai'r cyfnod cynradd yn tyfu ac yn derbyn disgyblion i'r grwpiau blwyddyn hyn dros gyfnod o saith mlynedd. Mae hyn yn cyfyngu ar effaith darpariaeth ysgol newydd ar ysgolion cyfagos ac yn galluogi ysgol newydd i dyfu mewn modd sefydlog. Yn y cyfnod uwchradd byddai disgyblion yn trosglwyddo'n naturiol o flwyddyn 6 i flwyddyn 7 heb wneud cais am le.

A fyddai'r cynnig hwn yn effeithio ar dderbyniadau uwchradd ar gyfer Ysgol Gyfun y Bont-faen?

Fel a nodir uchod, byddai disgyblion o gyfnod cynradd yr ysgol pob oed yn trosglwyddo'n naturiol o flwyddyn 6 i flwyddyn 7 heb wneud cais am le. Ystyrir bod capasiti presennol Ysgol Gyfun y Bont-faen yn addas i ateb y galw uwch am addysg uwchradd yn y dalgylch. Er bod goralw cyson am leoedd yn Ysgol Gyfun y Bont-faen, mae'r ysgol yn denu nifer fawr o geisiadau o'r tu allan i'r dalgylch. Ym mis Medi 2019, dim ond 151 (63%) o'r 240 o ddisgyblion y dyrannwyd lle iddynt oedd yn byw yn y dalgylch. O'r 1,539 o ddisgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd yn Ysgol Gyfun y Bont-faen, dim ond 960 (62%) sy'n byw yn y dalgylch. Mae hyn yn golygu bod 579 (38%) o'r disgyblion sydd ar y gofrestr yn byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol ar hyn o bryd. Felly, byddai'r cynnig hwn yn arwain at gyflenwad a galw mwy effeithlon lle mae lleoedd uwchradd yn nalgylch Ysgol Gyfun y Bont-faen yn y cwestiwn.

Beth fyddai enw'r ysgol?

Byddai angen diwygio enw'r ysgol i adlewyrchu ystod oedran yr ysgol pob oedran. Byddai'r Cyngor yn cydweithio'n agos gyda staff a chorff llywodraethu Ysgol Gyfun y Bont-faen i bennu enw'r ysgol pob oed.

Beth fyddai'r wisg ysgol?

Corff llywodraethu'r ysgol fyddai'n penderfynu ar wisg ysgol.

Pa opsiynau sydd ar gael i rieni ac arnynt eisiau addysg Gymraeg?

Mae Ysgol Iolo Morganwg ac Ysgol Dewi Sant yn ysgolion cynradd Cymraeg sy'n gwasanaethu'r Fro Orllewinol. Mae'r ddarpariaeth gynradd Gymraeg bresennol yn ddigon i ateb y galw a ragwelir am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal hon dros y 5 mlynedd nesaf. Ar 4 Tachwedd 2019 fe gymeradwyodd Cabinet y Cyngor ddull graddol o ehangu darpariaeth gynradd yn y Bont-faen gyda chapasiti cyfrwng Saesneg yn cael sylw fel rhan o gam un a chapasiti cyfrwng Cymraeg yn cael sylw fel rhan o gam dau. I sicrhau parhad ar draws cyfnodau allweddol, cynigir y byddai addysg cyfrwng Saesneg yn cael ei hehangu ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen tra byddai addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei hehangu gan ddefnyddio'r safle 2 hectar ar Fferm y Darren.

Pwy fyddai'n rheoli'r broses o adeiladu'r adeilad ysgol newydd?

Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor fyddai'n gyfrifol am reoli'r broses adeiladu. Byddai contractwr yn cael ei benodi gan ddefnyddio fframwaith SEWSCAP. Fframwaith adeiladu yw SEWSCAP a ddefnyddir gan 16 o awdurdodau lleol ac sy'n darparu Contractwyr sydd wedi cyn-gymhwyso ac sydd â phrofiad addas i gyflawni Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, ac adeiladau cyhoeddus eraill, sy'n gysylltiedig â phrosiectau i godi adeiladau newydd ac adnewyddu adeiladau presennol y mae eu gwerth yn fwy nag £1.5 miliwn. Byddai rhaglen ymgysylltu'n cael ei llunio i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu ynghylch y cynnydd ac yn gallu bwydo i mewn i'r broses ddylunio. Byddai cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cyngor, y contractwr a'r ysgol.

Beth fyddai dyluniad yr adeilad ysgol newydd yn ei olygu?

Ysgol gynradd hunangynhaliol fyddai'r adeilad ysgol newydd (h.y. yn ffisegol ar wahân i'r ysgol gyfun bresennol ar y safle arfaethedig). Byddai'r dyluniad yn ateb gofynion Bwletin Adeiladu: 99 sy'n cynnwys meini prawf ar gyfer maint dosbarthiadau a darpariaeth awyr agored. Mae ysgolion cynradd blaenorol a ddarparwyd gan Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ym Mro Morgannwg yn cynnwys Ysgol y Ddraig, Ysgol Dewi Sant, Ysgol Nant Talwg (cyfnod cynradd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg bellach), ac Ysgol Gynradd Oak Field. Ceir manylion a ffotograffau pellach ar brif dudalen we Ysgolion yr 21ain Ganrif: <https://www.valeofglamorgan.gov.uk/21st-Century-Schools>

Sut fyddem ni'n cael ein cynnwys trwy gydol y broses ddylunio?

Byddai rhaglen ymgysylltu'n cael ei llunio i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu ynghylch cynnydd ac yn gallu bwydo i mewn i'r broses ddylunio. Byddai cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cyngor, y contractwr a'r ysgol. Gellir anfon unrhyw adborth neu feddyliau at Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif yn:

21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk

Atodiad D - Ymgynghori a fu gyda phobl ifanc

Ymgynghoriad ag Ysgol Gyfun y Bont-faen ar ran Cyngor Bro Morgannwg ar y cynnig i ateb y galw uwch am addysg gynradd cyfrwng Saesneg yn y Bont-faen o fis Medi 2022.

Y Cefndir a'r Nod

Ar 9 Mawrth 2020, fe wnaeth Cabinet y Cyngor awdurdodi'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i gynnal ymgynghoriad rhwng 16 Mawrth 2020 ac 1 Mai 2020 ar gynnig diwygiedig i ateb y galw uwch am addysg gynradd cyfrwng Saesneg yn y Bont-faen.

Mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi pwysigrwydd gwneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion fel eu bod yn cael y cyfle i leisio'u barn ynglŷn â'r cynnig hwn.

Rhoddodd Ysgol Gyfun y Bont-faen wybod i'r Cyngor y byddai'n atal yr holl addysg ffurfiol o 23 Mawrth 2020 oherwydd goblygiadau a oedd yn gysylltiedig â'r achos o feirws COVID-19 a oedd yn mynd rhagddo. Cafodd sesiynau galw heibio personol a chyfarfodydd gyda chyngor yr ysgol a'r corff llywodraethu eu hatal.

Gan bod y Cyngor wedi estyn y cyfnod ymgynghori i sicrhau bod rhanddeiliaid yr ysgol a'r gymuned leol yn gallu lleisio'u barn cafodd y cyfarfod gyda chynrychiolwyr o blith disgyblion Ysgol Gyfun y Bont-faen ei drefnu ar gyfer 21 Medi 2020.

Methodoleg

- Gweithdy rhyngweithiol a oedd yn rhoi cyfle i'r disgyblion drafod a rhannu syniadau gyda'i gilydd.
- Wedyn cafodd y ddogfen ymgynghori ei hegluro iddynt, gan gynnwys y cefndir a'r llinell amser ar gyfer y gweithgarwch.
- Rhannwyd y disgyblion yn 2 is-grŵp i rannu a nodi eu syniadau eu hunain. Wedyn daeth y grwpiau ynghyd i gael trafodaeth bellach am y syniadau hyn.
- Yn dilyn yr adborth, rhoddwyd gwybodaeth i'r disgyblion am y manteision a'r diffygion a oedd wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori.
- Eglurwyd wrthynt y byddai eu sylwadau'n cael eu bwydo i mewn i adroddiad ar y sesiwn hon ac y byddai hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor fel rhan o'r dystiolaeth a gasglwyd ar yr ymgynghoriad hwn.

Y disgyblion a gymerodd ran: fe wnaeth cyfanswm o 6 disgybl gymryd rhan, sef 3 disgybl o Flwyddyn 12 a 3 disgybl o Flwyddyn 13.

Manteision y cynllun arfaethedig

- Integreiddio rhwyddach i ddisgyblion Blwyddyn 7 o'r cyfnod cynradd; trefniadau pontio haws, llai o orbryder

- Rhyddhad mewn ymateb i'r twf ym mhoblogaeth y dref ac yn y galw am addysg gynradd
- Gallai gynyddu agwedd flaengar a lles yn yr ysgol uwchradd
- Rhagor o gyfleoedd i'r chweched dosbarth helpu
- Mwy o gyfleoedd gwirfoddoli/profiad gwaith i ddisgyblion o'r cyfnod uwchradd yn y cyfnod cynradd e.e. gallai'r rhai sydd â diddordeb mewn addysgu gael profiad uniongyrchol
- Cwricwlwm cyffredin/cysylltiedig
- Mwy o leisiau/mwy o syniadau yn nhîm arwain yr ysgol o ganlyniad i ymwneud gan staff â phrofiad Cynradd
- Cost-ffeithiolrwydd – cyllideb fwy ond llai o gostau gweinyddol
- Gallai'r disgyblion cynradd ddysgu mwy am bwyllgorau rhagweithiol yr ysgol uwchradd
- Gallai disgyblion uwchradd eu gweld eu hunain fel modelau rôl a hynny'n arwain at ymddygiad gwell ganddynt o bosibl
- Gallai disgyblion cynradd gael mwy o ddiddordebau, gan ehangu eu gorwelion trwy fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol uwchradd (pynciau/diddordebau a.y.b.)
- Ysbrydoliaeth e.e. yr Eco Bwyllgor yn rhoi gwasanaethau cynradd i ddysgu am faterion ecolegol; bydd hyn yn ei dro'n rhoi profiad i'r disgyblion hŷn hefyd o wneud testunau o'r fath yn addas i gynulleidfa iau, gan ddysgu i addasu iaith a geirfa
- Gallai ysgogi'r angen i wella diogelwch y ffyrdd
- Gallai'r clwb chwaraeon gael ei redeg ar y cyd gan y disgyblion
- Ystod fwy o bynciau'n cael eu haddysgu yn y cyfnod cynradd am bod yr arbenigedd ar gael ar y safle uwchradd

Anfanteision posibl y cynllun arfaethedig

- Tarfu posibl o ran traffig; gormod o dagfeydd yn y Bont-faen – gallai materion trafndiaeth fod yn ddifrifol
- Dylanwad negyddol posibl gan y disgyblion hŷn ar blant
- Gallai effeithio'n negyddol ar y cysylltiad rhwng athrawon a disgyblion yn yr ysgol uwchradd (pe na baent wedi cyd-dynnu yn y cyfnod cynradd) – dim cyfle am ddechrau newydd
- Perygl gyda cherdded adref; plant 5 oed yn gadael yr un pryd â phobl ifanc 17 oed; dim ffordd ddiogel i gerdded at y llwybr i'r Bont-faen
- Dim lle i gasglu plant
- Dim digon o fannau parcio; dim lle parcio i'r 6^{ed} dosbarth
- Anfantais i'r rhai mewn ysgolion eraill sy'n bwydo'r ysgol uwchradd nad ydynt yn cael yr un profiad
- Gallai wneud i blant dyfu'n hŷn yn rhy gyflym
- Y disgyblion uwchradd yn colli lle
- Mae diffyg adnoddau ar hyn o bryd – gallai hyn ei wneud yn waeth
- Mwy o bwysau ar ddisgyblion hŷn – llai o ryddid gan y byddai disgwyl iddynt osod esiampl dda
- Gallai fod yn frawychus i blant llai
- Mae risg y bydd y disgyblion uwchradd presennol yn cael eu hanghofio tra bo blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r cyfnod cynradd – gan achosi oedi o ran datblygu'r cyfnod uwchradd ymhellach wrth adeiladu'r cynradd
- Colli manau gwyrdd – yn wael i'r amgylchedd, colli bioamrywiaeth, colli rhywfaint o chwaraeon?

Awgrymiadau

- Amseroedd gorffen wedi'i gwasgaru i ysgafnhau tagfeydd
- Meddwl yn ofalus am ardaloedd parcio
- Bod yn ymwybodol o dagfeydd posibl yn y dref

Arsylwadau

- Cyfranogodd pob disgybl yn llawn yn ei grŵp a thrafodaethau tîm.
- Roedd y disgyblion yn huawdl iawn ac yn dangos consyrn gwirioneddol am eraill trwy gydol eu trafodaethau.
- Fe wnaeth pawb rannu eu barn mewn modd agored, parchus a gonest.

23.ix.20

gj

Atodiad E – Ymateb gan Estyn

Cyflwyniad

Mae'r cynnig gan Gyngor Bro Morgannwg.

Y cynnig yw bodloni'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Saesneg yn Y Bont-faen o fis Medi 2022 trwy:

- newid ystod oedran Ysgol Gyfun Y Bont-faen o 11-19 oed i 3-19 oed
- cynyddu capasiti Ysgol Gyfun Y Bont-faen o 1,586 o leoedd i 1,796 o leoedd i greu 210 o leoedd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, gyda 48 o leoedd meithrin rhan-amser ychwanegol
- codi adeilad ysgol newydd ar safle Ysgol Gyfun Y Bont-faen i wneud lle ar gyfer y sector cynradd a'r sector meithrin

Bu'r Cyngor yn ymgynghori ar gynnig yn y gorffennol i sefydlu ysgol pob oed 3-19 ar safle Ysgol Gyfun Y Bont-faen i ddarparu 420 o leoedd cynradd, gyda 96 o leoedd meithrin rhan-amser ychwanegol. Byddai hyn wedi arwain at gau Ysgol Gynradd bresennol Y Bont-faen, gyda phob un o'r staff a'r disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol pob oed. I ymateb i bryderon a godwyd gan staff, llywodraethwyr, rhieni ac aelodau o'r gymuned i'r cynnig hwn, mae'r Cyngor yn awr yn cynnig hyn fel dewis arall amgen i gyflawni'r capasiti angenrheidiol.

Crynodeb/ Casgliad

Mae'r cynnig yn amlinellu dull graddol Cyngor Bro Morgannwg i ehangu darpariaeth gynradd yn Y Bont-faen, gan ehangu darpariaeth cyfrwng Saesneg fel rhan o gam un, ac ehangu darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg fel rhan o gam dau. Mae'n canolbwyntio ar newidiadau arfaethedig i Ysgol Gyfun Y Bont-faen.

Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o ran addysg a darpariaeth yn yr ardal.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr wedi darparu rhesymeg glir ar gyfer y cynnig. Mae'n amlinellu'n glir yr angen i ehangu addysg gynradd cyfrwng Saesneg yn Y Bont-faen er mwyn bodloni'r galw cynyddol o ganlyniad i ddatblygiadau tai diweddar ac arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiadau clir o niferoedd blaenorol y disgyblion a'r galw rhagamcanol am leoedd yn yr ardal yn y dyfodol o ganlyniad i'r datblygiadau tai hyn.

Mae wedi amlinellu manteision posibl priodol y cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer cost effeithlonrwydd ar draws safle a rennir, gweledigaeth a gwerthoedd cyson ar draws pob sector addysg, a ffocws cynyddol ar enillion mewn dysgu ar gyfer disgyblion yn ystod y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae'r cynigiwr wedi ystyried risgiau priodol i'r cynnig, gan gynnwys risg rhannu'r dref yn ddau ddalgylch. Mae hyn wedi cael ei liniaru'n briodol trwy rannu'r dalgylchoedd presennol rhwng Ysgol Gynradd Y Bont-faen a'r sector cynradd ychwanegol arfaethedig; bydd rhieni yn y dalgylch yn gallu gwneud cais am y naill leoliad neu'r llall.

Mae'r cynigiwr yn amlygu cyflwr gwael yr adeiladau presennol yn Ysgol Gynradd Y Bont-faen ac yn datgan na fydd y cynnig hwn yn mynd i'r afael â chyflwr yr adeiladau hyn. Mae'n ystyried, o ganlyniad i ostyngiad mewn costau cyfalaf ar gyfer y cynnig hwn, na fydd cyllid efallai ar gael i wella cyfleusterau presennol yn Ysgol Gynradd Y Bont-faen. Fodd bynnag, mae'n datgan hefyd fod 7 ysgol gynradd yn ardal Bro Morgannwg ar hyn o bryd sydd â lefel uwch o ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw, o gymharu

ag Ysgol Gynradd Y Bont-faen. Felly, nid yw'n sicr y bydd y cynnig hwn hefyd yn arwain at wella'r ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Y Bont-faen.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth dda i ddewisiadau eraill yn lle'r cynnig presennol. Mae wedi rhestru manteision ac anfanteision pob dewis. Mae anfanteision y dewisiadau hyn yn dangos yn glir pam mae'r dewisiadau eraill wedi cael eu diystyru fel rhai hyfyw. Er enghraifft, mae'n datgan yn rhesymol pam mae codi adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Y Bont-faen ar ei safle presennol yn anymarferol.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn briodol yr effaith ar drefniadau teithio dysgwyr. Mae'n datgan y byddai'r goblygiadau o ran traffig a chludiant yn cael eu hystyried fel rhan o gynigion ar gyfer caniatâd cynllunio, ac y byddai asesiad cludiant llawn yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ddylunio ar gyfer yr adeilad ysgol newydd.

Hefyd, mae'n rhagweld yn rhesymol, o ganlyniad i'r dalgylch cymharol fach yn sgil dwysedd y boblogaeth yn Y Bont-faen, mai ychydig iawn o ddisgyblion fyddai â hawl i gael cludiant ysgol am ddim.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i effaith y cynnig ar y ddarpariaeth Gymraeg yn yr ardal. Mae'n cyfeirio at Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y cyngor, sy'n amcanu at sicrhau y gellir bodloni'r galw ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y tymor hir. Mae'n datgan bod y cyngor wedi mabwysiadu dull graddol o ehangu darpariaeth gynradd, ac eir i'r afael â chapasiti cyfrwng Cymraeg fel rhan o Fand C rhaglen yr 21ain Ganrif yn ystod cynnig yn y dyfodol.

Mae'r cynigiwr wedi darparu asesiad priodol o'r effaith ar y gymuned fel dogfen ar wahân. Mae'r asesiad hwn yn rhoi ystyriaeth addas i effaith elfennau perthnasol y cynnig ar y gymuned leol ac yn dod i'r casgliad y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol, ar y cyfan.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i effaith y cynigion ar ansawdd y deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'n cyfeirio'n briodol at ddeilliannau adroddiadau arolygu diweddaraf Estyn, gan ddatgan bod Arolygiad diweddar gan Estyn o Ysgol Gyfun Y Bont-faen wedi barnu bod arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhagorol. Hefyd, mae'n amlygu'r perfformiad cryf cynaledig dros gyfnod a adlewyrchir yn yr Adroddiad Categoriiddio Cenedlaethol. Mae'n dadlau y bydd y cynnig hwn yn cadw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth hon, tra'n ymestyn ei chwmpas, ac y bydd pennaeth a chorff llywodraethol Ysgol Gyfun Y Bont-faen yn gyfrifol am sector cynradd a meithrin yr ysgol pob oed. Mae'n egluro y byddai Pennaeth presennol yr ysgol uwchradd hefyd yn Bennaeth yr ysgol pob oed newydd, ac y byddai 'arweinydd' sector cynradd yn cael ei gynnwys yn y trefniadau staffio hefyd. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon clir sut bydd y rôl hon yn sicrhau nad yw blaenoriaethau'r sector cynradd yn 'cael eu taflu i'r cysgod gan y sector uwchradd o ran gwneud penderfyniadau'.

Hefyd, mae'r cynigiwr yn datgan yn rhesymol y byddai'r ardaloedd natur awyr agored a rennir yn golygu y gellir trosglwyddo gwybodaeth a phrofiad rhwng disgyblion y sector cynradd a'r sector uwchradd, er enghraifft fel rhan o astudiaethau Bagloriaeth Cymru. Mae'r cynigiwr wedi ystyried yr effaith ar ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig, gan ddarparu gwybodaeth o adroddiad arolygu diweddaraf Estyn o Ysgol Gyfun Y Bont-faen. Hefyd, mae wedi darparu'r Adroddiad Categoriiddio Cenedlaethol sy'n cynnwys argymhelliad i:

- ddatblygu ymyrraeth ADY benodol (a hyfforddiant staff) i sicrhau bod ansawdd y

ddarpariaeth yn dda, yn ddwys ac yn cael effaith dda iawn ar safonau cyflawniad a mesurau gwerth ychwanegol.

At ei gilydd, mae'n ymddangos bod y cynigiwr yn dangos y bydd darpariaeth addas yn cael ei threfnu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys dylunio gofodau o fewn yr adeilad newydd ar gyfer ymyrraeth a chymorth.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn gymwys effaith y cynnig ar ysgolion eraill yn yr ardal. Mae wedi dod i'r casgliad rhesymol fod y cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar yr ysgolion hyn gan na chynigir unrhyw newidiadau i'r dalgylch presennol.

Mae'r cynigiwr wedi cynnwys manylion priodol am gyllid, gan gynnwys costau cynnal a chadw a buddsoddiad cyfalaf. Mae'n datgan y bydd y cynnig yn cael ei ariannu'n llawn gan y cyngor, gan ddefnyddio cyllid a neilltuwyd yn flaenorol i raglen 'Ysgolion yn yr 21ain Ganrif'.

Atodiad F – Cofnodion y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant am y cynnig

Mae'r recordiad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant (15 Hydref 2020) ar gael yma: <https://www.youtube.com/watch?v=klk36by7C0w&feature=youtu.be>

128 DIWEDDARIAD AR Y CYNNIG I GYNYDDU NIFER Y LLEOEDD YSGOL CYNRADD YN Y BONT-FAEN I ATEB Y GALW UWCH O GANLYNIAD I DDATBLYGIADAU TAI DIWEDDAR AC ARFAETHEDIG (CYF) -

Roedd y Cabinet, ar 9 Mawrth 2020, wedi cymeradwyo cynnig y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i gynyddu nifer y lleoedd ysgol cynradd yn y Bont-faen i ateb y galw uwch o ganlyniad i ddatblygiadau tai diweddar ac arfaethedig, ac roedd y Cabinet wedi penderfynu y byddai'r adroddiad yn cael ei atgyfeirio at y Pwyllgor hwn i gael ei ystyried fel rhan o'r ymarfer ymgynghori arfaethedig.

Fe wnaeth y Rheolwr Prosiectau Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad blaenorol ar gynnis i uno Ysgol Gynradd y Bont-faen ac Ysgol Gyfun y Bont-faen a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod cyfarfod ar 5 Rhagfyr 2019.

Roedd yr adroddiad hefyd yn hysbysu'r Pwyllgor ynghylch y ffordd newydd ymlaen a ffeirir fel a nodwyd gan y Gyfarwyddiaeth ac a gymeradwywyd gan y Cabinet yn dilyn yr ymgynghoriad blaenorol, a oedd yn cynnig bod yr Awdurdod Lleol yn ateb y galw uwch am addysg gynradd cyfrwng Saesneg yn y Bont-faen o fis Medi 2022 trwy;

- Newid ystod oedran Ysgol Gyfun y Bont-faen o 11 - 19 i 3 - 19;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gyfun y Bont-faen o 1,586 o leoedd i 1,796 o leoedd i wneud lle i 210 o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg gyda 48 o leoedd meithrin rhan-amser ychwanegol; a
- Chodi adeilad ysgol newydd ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen i wneud lle i'r cyfnodau cynradd a meithrin.

Rhoddodd y Swyddog wybod bod y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig newydd wedi lansio ar 16 Mawrth 2020, ac yn dilyn cau'r holl ysgolion oherwydd pandemig COVID-19 ar 23 Mawrth bod penderfyniad wedi cael ei wneud y dylai'r ymgynghoriad aros ar agor ac y dylai'r dyddiad terfyn gael ei ddileu er mwyn i ymgynghoreion allu parhau i gyflwyno adborth ac er mwyn i'r ddogfennaeth ddal i fod ar gael i ymgynghoreion gael mynediad ati a'i hadolygu yn ystod y cyfnod hwn. Rhoddodd y Swyddog wybod bod dyddiad terfyn o 18 Hydref wedi cael ei bennu'n wreiddiol ar gyfer yr ymgynghoriad ond, ar ôl cael gwybod nad oedd yr holl ymgynghoreion wedi cael eu gwneud yn ymwybodol o hyn, y penderfynwyd y dylid estyn y cyfnod ymgynghori i 23 Tachwedd i sicrhau bod yr holl ymgynghoreion yn cael digon o amser i ymateb.

Rhoddodd y Swyddog drosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hyd yma, gan nodi bod 113 o ymatebion wedi dod i law hyd yn hyn gyda 48% o blaid, 51% ddim yn cefnogi'r cynnig ac 1% heb fynegi barn o blaid nac yn erbyn. Rhoddodd y Swyddog grynodeb hefyd o'r themâu allweddol a nodwyd yn yr ymatebion nad oeddent o blaid y cynnig a oedd fel a ganlyn:

- Gwrthwynebiad i'r model ysgol 'pob oed' a oedd yn cael ei gynnis;
- Pryderon ynghylch newidiadau i gapasiti'r ysgol a'r broses dderbyn;
- Pryderon preswylwyr ynghylch goblygiadau'r cynnig o ran traffig;

- Gwrthwynebiad i ddiffyg buddsoddi yn Ysgol Gynradd y Bont-faen; a
- Materion gyda'r broses ymgynghori a oedd yn cael ei dilyn.

Fe ymdriniodd y Swyddog â phob thema yn ei thro a darparodd ragor o wybodaeth am bryderon ymgynghoreion o safbwynt yr Awdurdod Lleol. Ar yr adeg hon tynnodd y Cadeirydd sylw Aelodau'r Pwyllgor at sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd mewn ymateb i'r mater hwn a oedd wedi cael eu cylchredeg i'r Aelodau cyn y cyfarfod ac a oedd wedi bod ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor ochr yn ochr â'r Eitem ar yr Agenda.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, ac yntau wedi cael caniatâd i siarad, yn dymuno amlygu bod y Cabinet, mewn perthynas â'r ymgynghoriad ynghylch y cynnig blaenorol, wedi ystyried yr ymateb cryf mewn perthynas â'r awgrym i ddirwyn Ysgol Gynradd y Bont-faen i ben, sef y rheswm pam y penderfynwyd datblygu cynnig gwahanol a fyddai'n dal i ateb y galw am leoedd ysgol Cynradd yn y Bont-faen, o ystyried mai dyma oedd prif nod yr ymarfer. Nododd yr Aelod Cabinet hefyd, ymhlith yr aelodau hynny o'r cyhoedd a oedd wedi siarad yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Craffu pan gafodd y cynnig blaenorol ei ystyried, fod cefnogaeth lafar wedi bod i'r model 3-19 a gynigiwyd ar gyfer Ysgol Gyfun y Bont-faen, a bod hyn hefyd wedi goleuo'r cynnig newydd a oedd yn cael ei ystyried.

Ar yr adeg hon estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i aelodau o'r cyhoedd a oedd wedi cofrestru i siarad annerch y Pwyllgor. Y siaradwyr a oedd wedi cofrestru oedd; Y Parch. Heather Weddell, Llywodraethwr Cymunedol yn Ysgol Gynradd y Bont-faen; Y Cyngorydd Ddr. John Andrew, Cyngorydd Tref y Bont-faen a Llanfleiddan; a Mr. Neil Millard, rhiant i ddisgybl a oedd yn mynychu Ysgol Gynradd y Bont-faen.

Gellir crynhoi'r pwyntiau allweddol a godwyd gan y siaradwyr cyhoeddus fel a ganlyn:

- Nid oedd safle Ysgol Gyfun y Bont-faen yn briodol i dderbyn disgyblion Cynradd oherwydd problemau gyda thagfeydd a'i gyfleusterau, tra gallai'r cyfleuster sefydledig yn Ysgol Gynradd y Bont-faen gael ei estyn a'i ddefnyddio er budd y gymuned gyfan.
- Byddai cost estyn neu adnewyddu Ysgol Gynradd y Bont-faen yn is na chost y cynnig dan ystyriaeth.
- Nid oedd tystiolaeth glir o fudd ysgolion pob oed i ddisgyblion iau. Nid oedd yn ymddangos ychwaith bod mandad democrataidd o blaid y model hwn fel yr opsiwn a ffeirir gan y Cyngor ar gyfer addysg.
- Roedd y cynnig yn gwahaniaethu yn erbyn preswylwyr Clare Gardens a theuluoedd heb gludiant oherwydd pellter eu cartrefi o safle'r Ysgol Uwchradd o'i gymharu ag Ysgol Gynradd y Bont-faen, a'r diffyg llwybr cerdded diogel i'r safle.
- Roedd yn annheg i ddisgyblion a rhieni y byddai'r cynnig yn golygu bod un ysgol gynradd yn y Bont-faen yn cael cyfleusterau newydd sbon a hawl i'w disgyblion gamu ymlaen yn awtomatig i Ysgol Gyfun y Bont-faen, a bod un arall yn un yr oedd angen ei hadnewyddu ac yr oedd ei disgyblion heb hawl i gamu ymlaen yn awtomatig.
- Roedd y rhesymeg dros ddiystyru safle Fferm y Darren yn aneglur gan ei bod yn ymddangos nad oedd trafodaethau wedi digwydd gyda Taylor Wimpey eto ynghylch rhyddhau'r safle'n gynnar.
- Nid oedd unrhyw gynllun wedi cael ei gyflwyno gerbron eto o ran sut y byddai'r diffygion a'r heriau a wynebir gan Ysgol Gynradd y Bont-faen (ac ysgolion eraill yn y Fro ag ôl-groniad o waith cynnal a chadw) yn cael eu datrys, fel a oedd yn ofynnol gan Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Gan na wnaeth Aelodau'r Pwyllgor ofyn am eglurhad o unrhyw bwyntiau gan y siaradwyr o blith y cyhoedd, fe ddiolchodd y Cadeirydd iddynt am eu hamser.

Cyfeiriodd Aelod at bryderon a godwyd ynghylch grwpiau oedran yn cymysgu mewn ysgol pob oed, a rhoddodd y Rheolwr Prosiectau Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif wybod y cynigir defnyddio dull tebyg i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, gyda cham Cynradd yr ysgol yn darparu popeth a fyddai gan Ysgol Gynradd ar ei phen ei hun o ran cyfleusterau a mesurau diogelu, ynghyd â mynediad at gyfleusterau ac adnoddau addysgu mwy arbenigol ar y safle Uwchradd ar gyfer y disgyblion Cynradd.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau fod Pennaeth Bro Morgannwg wedi siarad yn ffafriol am y model pob oed yn y cyfarfod pan drafodwyd y cynnig blaenorol, a bod yr Uwch Dîm Arwain yn Ysgol Gyfun y Bont-faen wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn cefnogi'r cynnig ac yn amlinellu'r cyfleoedd a fyddai ar gael trwy fabwysiadu'r model pob oed.

Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor eu barn ynglŷn â'r mater gyda rhai'n adleisio pryderon y siaradwyr o blith y cyhoedd bod y cynnig yn mynd â chyfleoedd oddi wrth ddisgyblion yn Ysgol Gynradd y Bont-faen ac nad oedd yn ddefnydd effeithiol o arian pan ellid gwella ac ehangu safle'r Ysgol Gynradd bresennol yn y Bont-faen yn lle hynny. Amlygodd un o'r Aelodau hefyd na fyddai'r tîm rheoli yn Ysgol Gyfun y Bont-faen yn meddu ar y profiad o reoli'r cyfnod Cynradd.

Siaradodd Aelodau eraill yn ffafriol am y cynnig gan nodi bod angen cydnabyddedig i gynyddu lleoedd ysgol Cynradd yn yr ardal, ond bod angen symud ymlaen hefyd gan bod yr Awdurdod Lleol eisoes 12-18 mis ar ei hôl hi o ran diwallu'r angen hwn. Nodwyd hefyd fod ysgolion pob oed yn llwyddiannus a bod ganddynt hanes da mewn ardaloedd lle'r oedd y model wedi cael ei roi ar waith, a chan bod Ysgol Gyfun y Bont-faen yn ysgol ragorol y byddai ysgol Gynradd yn debygol o gael budd o'i harbenigedd. Amlygodd yr Aelod Cyfetholedig a oedd yn cynrychioli Fforwm Ieuencid y Fro fod cyfleoedd o fewn y model pob oed presennol ym Mro Morgannwg i ddisgyblion Uwchradd gael profiad gwaith trwy fynychu'r safle Meithrin, ac i ddisgyblion Cynradd ymgyfarwyddo â'r safle Uwchradd cyn pontio.

Mewn ymateb i gwestiynau pellach gan Aelodau, hysbysodd Swyddogion ynghylch y canlynol:

- Nid oedd yr ysgol Gynradd newydd yn cael ei chynnig yn benodol er mwyn derbyn disgyblion sy'n byw yn Clare Garden Village, gan y byddai ei dalgylch yr un fath â dalgylch Ysgol Gynradd y Bont-faen gan felly roi'r cyfle i rieni fynegi dewis rhwng yr ysgolion os bydd y pellter i'r naill safle neu'r llall yn broblem. Byddai cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol yn cael ei ddarparu ar gyfer unrhyw ddisgybl sy'n byw o fewn pellter cerdded o fwy na 2 filltir o'i ysgol Gynradd.
- Byddai pryderon a godwyd ynghylch y lle sydd ar gael ar y palmant yn cael sylw pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, gyda chynllun teithio'n cael ei ddrafftio er mwyn datblygu llwybrau diogel i'r ysgol a chyfraniadau Adran 106 ychwanegol ar gael i gefnogi teithio llesol.
- Er nad oedd safle presennol Ysgol Gynradd y Bont-faen yn rhy fach o anghenraid ar gyfer ysgol â 420 o leoedd, roedd yn safle ar lethr a fyddai'n achosi heriau i ddatblygiad o'r fath. Hefyd, roedd yr effaith ar y briffordd leol yn achosi pryder gan y byddai'r camau gweithredu y byddai eu hangen i gydymffurfio â gofynion Cynllunio yn ychwanegu'n sylweddol at gostau'r prosiect, ac y byddai mynediad cyfyngedig at y safle'n achosi problemau o ran caffael contractwr oherwydd risgiau a allai fod yn uchel a goblygiadau ariannol cysylltiedig. Yr unig opsiwn dichonadwy ar gyfer datblygu ar y safle presennol fyddai dymchwel yr adeilad presennol a'i ail-adeiladu, a fyddai'n dwyn costau sylweddol oherwydd yr angen i adleoli disgyblion a staff tra bod hyn yn mynd rhagddo.
- Roedd mynd i'r afael â chyflwr adeiladau ysgol presennol (megis Ysgol Gynradd y Bont-faen) yn mynd i gael ei ystyried yn flaenoriaeth dan y Rhaglen Adnewyddu

Asedau; fodd bynnag, roedd yn rhaid i'r rhaglen ystyried yr holl ysgolion yn y Fro ac roedd yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor Llawn fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf. Felly byddai angen i'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw sy'n ofynnol yn Ysgol Gynradd y Bont-faen gael ei ystyried dros y misoedd nesaf, ac roedd yr Awdurdod Lleol eisoes wedi buddsoddi ynddo.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, ac yntau wedi cael caniatâd i siarad, yn dymuno adleisio pwyntiau Swyddogion ynghylch y Rhaglen Adnewyddu Asedau ac amlygodd, er bod Ysgol Gynradd y Bont-faen wedi cael cryn dipyn o arian yn ddiweddar dan y cynllun, nad oedd unrhyw reswm pam na fyddai'n dal i gael ei chynnwys a'i hystyried yn y dyfodol. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet ei bod wedi cael ei gwneud yn glir bod bwriad darparu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd y Bont-faen a bod hyn yn wir o hyd, ond gan mai diben y cynnig a oedd yn cael ei drafod ar hyn o bryd oedd cynyddu nifer y lleoedd ysgol Cynradd yn y Bont-faen, a chan y mynegwyd yn gryf yn ystod yr ymarfer ymgynghori blaenorol fod Ysgol Gynradd y Bont-faen yn dymuno cadw ei lleoliad a'i maint presennol, nad oedd datblygu adeilad newydd ar gyfer yr ysgol yn cael ei ystyried fel rhan o'r cynnig penodol hwn.

Gan nad oedd unrhyw ymholiadau na sylwadau pellach gan Aelodau ARGYMHELLWYD – FOD y Pwyllgor Craffu yn cymeradwyo'r penderfyniadau a oedd wedi'u cynnwys yn yr atgyfeiriad gan y Cabinet dyddiedig 9 Mawrth (Cofnod Rhif C265).

Rheswm dros yr argymhelliad

Sicrhau yr ymgynghorir â'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar y cynnig fel rhan o'r ymarfer ymgynghori arfaethedig.

Atodiad G – Ymateb gan Gyngor Tref y Bont-faen (Bwrdeistref Hynafol) gyda Llanfleiddan a oedd yn ategu'r ymateb a ddatblygwyd gan gorff llywodraethu Ysgol Gynradd y Bont-faen

Dyfodol Addysg yn y Bont-faen

Ar 9 Mawrth 2020, fe wnaeth Cabinet y Cyngor awdurdodi'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i gynnal ymgynghoriad ar gynnig diwygiedig i gynyddu nifer y lleoedd ysgol cynradd yn y Bont-faen.

Mae'r Ddogfen Ymgynghori a gyhoeddwyd gan y Cyngor i ategu'r uchod yn cynnig ateb y galw uwch am addysg gynradd cyfrwng Saesneg yn y Bont-faen o fis Medi 2022 trwy:

- Newid ystod oedran Ysgol Gyfun y Bont-faen o 11 - 19 i 3 - 19;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gyfun y Bont-faen o 1,586 o leoedd i 1,796 o leoedd i wneud lle i 210 o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg gyda 48 o leoedd meithrin rhan-amser ychwanegol; a
- Chodi adeilad ysgol newydd ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen i wneud lle i'r cyfnodau cynradd a meithrin.

Mae gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Bont-faen nifer o bryderon ynghylch y cynigion uchod, a byddai'n erfyn ar bawb sydd â diddordeb yn nyfodol ein hysgolion, ein plant a'n tref, i ddarllen y Ddogfen Ymgynghori a gyhoeddwyd gan y Cyngor, ac ymateb cyn gynted â phosibl – nid oes dyddiad cau wedi cael ei roi eto ar gyfer y cyfnod ymgynghori.

Er y byddem yn disgwyl i bawb benderfynu drostynt hwy eu hunain sut i ymateb i'r Ddogfen Ymgynghori, hoffai'r Llywodraethwyr fynegi'r pryderon canlynol.

1. Cyflwyniad (t.4 o'r Ddogfen Ymgynghori)

Cyhoeddwyd y Ddogfen Ymgynghori o ganlyniad i ymateb negyddol gan y mwyafrif llethol i Ddogfen Ymgynghori flaenorol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019, a oedd yn cynnig:

- cau Ysgol Gynradd y Bont-faen,
- newid ystod oedran Ysgol Gyfun y Bont-faen o 11-19 i 3-19; a
- chodi adeilad ysgol newydd ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen i wneud lle i'r cyfnodau cynradd a meithrin

Roedd dros 67% o'r ymatebion i'r cynigion uchod yn eu gwrthwynebu. Y rhai mwyaf blaenllaw o blith y Pryderon Allweddol a fynegwyd gan yr ymatebwyr (fel a gofnodwyd gan gyfarfod Cabinet Bro Morgannwg ar 9 Mawrth 2020) oedd:

- dim digon o dystiolaeth y byddai uno'r ysgolion yn gwella addysg i'r plant,
- yr effaith negyddol ar ofal bugeiliol a diogelwch disgyblion, a
- cholli gwybodaeth ysgol gynradd arbenigol yn yr ysgol newydd ar ôl uno.

Fel a welir isod, mae'r Ddogfen Ymgynghori newydd yn methu ag ymdrin â'r pryderon hyn mewn perthynas â'r plant a fyddai'n mynychu Ysgol Gynradd y Bont-faen ar ei newydd wedd.

2. Capasiti (t. 8-9; 15-16 o'r Ddogfen Ymgynghori)

Dywedir bod angen ehangu Ysgol Gyfun y Bont-faen oherwydd cynnydd a ragamcanir yn niferoedd y disgyblion cynradd o 132 erbyn 2026, a 185 erbyn 2028. Fodd bynnag, ni fydd y niferoedd hyn ond yn cael eu cyrraedd **os** yw pob un o'r 475 o gartrefi yn natblygiad Fferm y Darren yn cael eu hadeiladu a'u gwerthu, **ac** os yw'r datblygiadau tai ychwanegol yng Nghynllun Datblygu Lleol y Cyngor ar gyfer 2011 – 2026 hefyd yn cael eu hadeiladu a'u gwerthu. Felly efallai na fydd y cynnydd a ragamcanir yn niferoedd y disgyblion cynradd o 185 erbyn 2028 yn cael ei gyflawni, ond bydd yr adeilad ysgol gynradd newydd yn Ysgol Gyfun y Bont-faen yn darparu 210 o leoedd ar gyfer disgyblion, a fydd ar gael o 2022, pan ragfyneir mai dim ond 25 i ddisgyblion fydd yn yr adeilad (t. 16). Hyd yn oed pe bai pob un o'r 185 o leoedd a ragamcanir yn cael eu llenwi erbyn 2028, dim ond 88% o'r adeilad fyddai'n cael ei ddefnyddio o hyd.

3. Safonau a chynnydd (t. 11 – 13 o'r Ddogfen Ymgynghori)

Fel a nodir ym mhara 1, uchod, un o'r pryderon mawr yn yr ymatebion i'r ddogfen ymgynghori flaenorol oedd y dybiaeth ddiotal a di-sail gan mwyaf y byddai ysgol wedi'i huno (neu ysgol 'pob oed') ar gyfer disgyblion 3 – 18 oed yn, '...cynnig mwy o botensial ar gyfer gwella lefelau cyflawniad ar gyfer yr holl ddisgyblion'. Mae'r Ddogfen Ymgynghori bresennol yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon hyn, ond mae'r adran sy'n ceisio gwneud hynny mor brin o sylwedd a thystiolaeth ffeithiol fel ei bod, os rhywbeth, yn eu gwneud yn waeth. Ceir cyfeiriadau at ystyried, '..bod y model pob oed yn darparu mwy o gyfleoedd i gynyddu'r cyfleusterau i'r eithaf', a bod y Cyngor, '..o'r farn bod nifer o fanteision yn gysylltiedig â'r model ysgol pob oed'. Mae'r manteision hyn yn aml yn ymwneud ag effeithlonrwydd gweinyddol a rheolaethol, a lle maent yn ymdrin â lles ein plant, maent yn tueddu i fod yn amwys, yn amhendant a heb unrhyw dystiolaeth sicr.

Cyfeirir at ymchwil gan y Coleg Cenedlaethol Arweinyddiaeth Ysgolion, y dywedir ei fod wedi cynnal ymchwil i'r '...model pob oed'. Ar ôl hyn ceir rhestr faith o 'ganfyddiadau' am fanteision honedig y dysgu pob oed y dywedir eu bod wedi deillio o'r ymchwil hon. Yn wir, cynhaliwyd yr ymchwil ar y cyd â'r Consortiwm Addysg Pob Oed (CATS), grŵp cenedlaethol sy'n cefnogi arweinyddiaeth ar gyfer dysgu pob oed. Mae'r adroddiad a gynhyrchwyd yn disgrifio'i hun fel 'prosiect ymchwil ar raddfa fach' a oedd yn cynnwys cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb mewn 16 o 'leoliadau', yr oedd y 'rhan fwyaf ohonynt' gyda '...yr arweinydd, uwch arweinydd ac arweinydd canol'. Mae'r adroddiad yn 16 tudalen o hyd, a'r ddalen flaen yw un o'r rhain, y cynnwys yw un arall, crynodeb gweithredol yw dwy arall, ac mae dwy yn ymdrin â chyfeiriadau. Efallai na ddylai fod yn syndod bod y ddogfen deg tudalen a ddeilliodd, gan sefydliad sy'n hyrwyddo arweinyddiaeth ar gyfer dysgu pob oed, a geisiodd wybodaeth gan grŵp bach o arweinwyr mewn dysgu pob oed yn unig, yn adroddiad sy'n gadarnhaol iawn ynglŷn â dysgu pob oed. Nid dadansoddiad annibynnol, manwl o ddysgu pob oed fel system yw'r adroddiad hwn, ac (er tegwch â'r ddogfen ymchwil y cyfeiriwyd ati) nid yw'n esgus bod yn hynny ychwaith. Mae'n anghywir defnyddio'r darn bach, goddrychol hwn o waith ymchwil i greu rhestr faith o fanteision honedig.

Mae'r hyn a ddwedir ym mharagraff cyntaf yr adran hon yn berthnasol i raddau helaeth i'r tudalennau yn nes ymlaen yn y Ddogfen Ymgynghori (*tudalennau 25 – 27*), sydd eto'n ymdrin yn faith â honiadau di-sail braidd ynghylch y profiad dysgu mewn ysgol pob oed, wedi'i huno.

Rhaid pwysleisio eto bod manteision ysgol pob oed neu wedi'i huno yn dal heb eu cadarnhau, ac mae cyfeiriadau yn y Ddogfen Ymgynghori at y ffaith bod ysgolion o'r fath yn 'boblogaidd' yn codi'r cwestiwn, poblogaidd gan bwy?

4. Adeiladau a Chyfleusterau'r Ysgol (t. 25 – 27 o'r Ddogfen Ymgynghori)

Mae'r cynigion yn cadarnhau y bydd yn rhaid codi adeilad newydd ar gyfer yr uned ysgol gynradd newydd ar safle'r ysgol gyfun. Bydd yr adeilad hwn yn cynnwys, '...ystafelloedd dosbarth (o faint addas ar gyfer 30 o ddisgyblion ym mhob ystafell ddosbarth), prif neuadd ar gyfer chwaraeon a bwyta, swyddfeydd ar gyfer uwch aelodau o staff a staff gweinyddol, ystafell athrawon, ac ardaloedd ymneilltuo ar gyfer ymyriadau a roddir i ddisgyblion. Byddai ffens o amgylch yr ysgol i ddiogelu disgyblion cynradd gyda mynediad ag intercom ar gyfer ymwelwyr. O fewn tir y cyfnod cynradd, byddai ardaloedd chwarae awyr agored, man chwarae amldeffnydd (MUGA) ac ardaloedd cynefin ar gyfer darpariaeth ysgol goedwig ac i wella lles disgyblion'. Mae'n anodd dychmygu mwy o wastraff arian cyhoeddus nag adeiladu uned ysgol gynradd sylweddol, sy'n ceisio dyblygu holl gyfleusterau ysgol gynradd bresennol 400 metr i ffwrdd, ond sy'n gwneud hynny ar dir cyfyng, yr effeithir arno gan lifogydd, sydd ar bwys priffordd, a fydd yn amddifadu ysgol gyfun gyfagos o beth o'i thir a chyfleusterau cyfyngedig. Efallai y byddai'n bosibl i hyn gael ei liniaru, fel a awgrymir, trwy reolaeth ofalus ar y safle cyfyng, llai, ar y cyd a fydd yn cael ei greu am 4 blynedd gyntaf y cynllun, pan fyddai'r ysgol gynradd yn ymddangos fwy neu lai'n wag, ond bydd yn mynd yn anos os bydd y niferoedd yn cynyddu fel a ddisgwylir. Os na fyddant, sy'n sicr yn bosibilrwydd, yna gallai fod sefyllfa fwy chwerthinlyd byth o ysgol newydd sbon sydd fwy neu lai'n wag, a hithau'n sefyll ar bwys ysgol gyfun sy'n orlawn.

5. Effeithiau ar ysgolion eraill (t. 29 o'r Ddogfen Ymgynghori)

Crybwyllwyd uchod fod y Ddogfen Ymgynghori'n nodi'r angen i adeiladu ail ysgol gynradd, â'r un capasiti ag Ysgol Gynradd y Bont-faen, ryw 400 metr i ffwrdd, ar safle llai cyfleus, mwy cyfyng a mwy cyfyngedig, am gost o ryw £5 miliwn o bunnau. Dywedir na ellir gwella safle Ysgol y Bont-faen am bod 'asesiad dichonoldeb cychwynnol' (*tudalen 9*) wedi canfod y byddai 'mynediad cyfyngedig ar gyfer adeiladu' yn golygu bod rhaid adleoli'r disgyblion dros dro, ac y byddai hyn yn profi'n rhy ddud. Doir i'r casgliad hwn heb unrhyw arwydd o'r ymchwil a gwblhawyd i'r mater. O gofio bod cost wreiddiol y datblygiad yn fwy na £7 miliwn o bunnau, gellid gofyn am roi mwy o ystyriaeth i gost gwella ac estyn y safle presennol, ac adleoli'r disgyblion dros dro, does bosibl.

Os nad yw hynny i fod, mae'r Ddogfen Ymgynghori'n gwneud y pwynt y bydd y ysgol gynradd ddiwygiedig â chapasiti o 210 a fyddai'n cael ei gwasgu i mewn i Safle Ysgol Gyfun y Bont-faen yn costio llai na'r fersiwn fwy y bwriedid ei hadeiladu'n wreiddiol, gan ddwyn arbediad o ryw £2.4 miliwn o bunnau. Ychydig dros £500,000 yw cost atgyweirio'r adeiladau ysgol sydd wedi'u hesgeuluso ar safle Ysgol Gynradd y Bont-faen, a fyddai'n dal i adael bron i £2 filiwn i gael ei wario ar ysgolion eraill yn y Fro; arian na fyddai wedi bod ar gael oni bai am brotestiadau

rhieni, plant a phobl y Bont-faen. Serch hynny, mae'r Ddogfen Ymgynghori'n ei gwneud yn glir, gan y bydd ysgolion eraill yn cael blaenoriaeth wrth wario arian, y bydd Ysgol Gynradd y Bont-faen yn dal i ddiodef yr esgeulustod a'r trallod y mae wedi'u diodef am nifer o flynyddoedd, gan fynd i gyflwr adfeiliedig mwy enbyd a drud, tra bo ysgol gynradd yr un fath yn union 400 metr i ffwrdd yn wag.

6. Adnoddau dynol (t. 32 o'r Ddogfen Ymgynghori)

Bydd yn wir eto bod yr ysgol gynradd newydd ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen yn cael ei llywodraethu gan gorff llywodraethu Ysgol Gyfun y Bont-faen, a fydd yn gyfrifol am lywodraethu cyfnodau cynradd ac uwchradd yr ysgol pob oed 3-19. Bydd y sgil, yr arbenigedd a'r wybodaeth arbenigol y mae eu hangen i redeg ysgol gynradd yn effeithiol, ar gyfer plant 3-11 oed, yn gwbl absennol o'r corff rheoli newydd hwn.

Ein pryder ni, fel Llywodraethwyr Ysgol, fel aelodau o Gymuned y Bont-faen, fel rhieni a theidiau a neiniau ein plant ni ein hunain, ac fel pobl sydd â chonsyrn am genedlaethau'r dyfodol, yw bod y cynigion yn y Ddogfen Ymgynghori:

- Yn methu â defnyddio cyllid cyhoeddus cyfyngedig yn effeithiol;
- Yn lleihau ac yn cyfyngu ar yr adnoddau sydd ar gael i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gyfun y Bont-faen;
- Yn darparu gofal ac addysg o ansawdd gwaeth i blant a fydd yn mynychu adeilad yr ysgol gynradd ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen;
- Yn darparu amgylchedd ffisegol sy'n gwaethygu ar gyfer disgyblion sy'n mynychu safle Ysgol Gynradd y Bont-faen;
- Yn taseilio ymrwymiad datganedig Cyngor Bro Morgannwg i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn y fro yn cael pob cyfle i gyflawni'r deilliannau gorau posibl.